

**ADRODDIAD
BLYNYDDOL**
ANNUAL REPORT
2016.17



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Adroddiad Blynyddol

Annual Report 2016·17

Cyngor Llyfrau Cymru

Welsh Books Council

Swyddogaeth

- ▶ Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall.
- ▶ Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.
- ▶ Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwr.
- ▶ Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Cyllid

- ▶ Oddi ar Ebrill 2002 ariennir y Cyngor Llyfrau'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.
- ▶ Oddi ar Ebrill 2003 trosglwyddwyd cyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru ym maes cyhoeddi i'r Cyngor Llyfrau.

Purpose

- ▶ To stimulate interest in books in Welsh and Welsh books in English, together with other related material.
- ▶ To promote the publishing industry in Wales and to coordinate the interests of authors, publishers, booksellers and libraries.
- ▶ To assist and support authors by providing services and by awarding grants/commissions which are channelled through publishers.
- ▶ To distribute grants to help publish quality material in both Welsh and English and to ensure that the output is widely available.

Funding

- ▶ Since April 2002 the Welsh Books Council has been funded directly by the Welsh Government.
- ▶ From April 2003 the responsibilities of the Arts Council of Wales in the field of publishing were transferred to the Welsh Books Council.

Y Cyngor a'i bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru, a chroestoriad o sefydliadau diwylliannol Cymru. [Am restr o'r aelodau, gweler tt. 55–6.] Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr yr elusen. Un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Panel Enwebiadau sy'n penodi aelodau i'r panelau arbenigol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Swyddogaeth y Panel Enwebiadau yw sicrhau bod y drefn o benodi aelodau i'r panelau, trwy hysbysebu agored, yn deg a thryloyw, yn unol â threfn arfer gorau.

Y mae'r Cyngor Llyfrau'n paratoi Cynllun Gweithredol blynyddol, a'r ddogfen hon sy'n cyfeirio gwaith y sefydliad. [Ceir copi o'r ddogfen ar wefan y Cyngor: www.clc.org.uk] Y mae Llythyr Grant Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r hyn y mae'n ofynnol i'r sefydliad ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru. Sefydliad anghorfforedig annibynnol a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig yw'r Cyngor Llyfrau.

The Council and its committees

The Books Council is governed by a Council and Executive Committee which are appointed under the terms of its Constitution, and comprise representatives of local authorities, and a cross-section of the cultural organisations of Wales. [For a list of members, see pp. 55–6.] Members of the Executive Committee serve as trustees of the charity. The Nominations Panel, a sub-committee of the Executive Committee, appoints members to specialist panels which report to the Executive Committee. The function of the Nominations Panel is to ensure that the system of appointing members, through an open advertising process, is conducted with fairness and transparency, in line with best practice.

The Books Council prepares an annual Operational Plan, which directs the work of the organisation. [A copy can be found on the Council's website: www.wbc.org.uk] A Grant Letter outlines the Welsh Government's requirements of the Council during the year.

Constitution

The governing instrument of the Welsh Books Council is a written constitution. The Welsh Books Council is an independent, unincorporated association established for charitable purposes only.



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government





Cyflwyniad y Cadeirydd Chairman's Introduction

“RHEN DREFN dan newid rydd i'r newydd le”: gellid yn rhwydd ddefnyddio llinellau enwog, soniarus a doethinebus Tennyson i ddisgrifio Cyngor Llyfrau Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. (Er, diau y byddai'n rhyfygus i fynd ymlaen i gymhwyso'r llinell nesaf o drosiad John Young Evans o waith y bardd i sefyllfa'r Cyngor: 'A Duw amlyga'i hunan lawer modd'!) Yn 2016/17 ffarwelwyd â Phrif Weithredwr uchel ei barch a fu'n gwasanaethu am sawl blwyddyn, ac olynwyd ef gan Brif Weithredwr newydd a chanddi set o sgiliau a phrofiadau sy'n ddiddorol o wahanol. Ac mae parodrwydd y Cyngor i gefnogi newid mor fawr â hyn yn tystio ymhellach i'w awydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid yn gyson.

Gwasanaethodd Elwyn Jones y Cyngor yn anrhydeddus am oddeutu ugain mlynedd, a hynny fel ei Brif Weithredwr dros y blynyddoedd diwethaf. A minnau wedi chwarae rhan yn ei benodiad yn 2009, cefais wedyn y pleser a'r fraint o gydwasanaethu ag ef am saith mlynedd hynod bleserus – profiad a ychwanegodd at y parch mawr a oedd gennyf tuag ato eisoes yn ei rôl flaenorol fel dirprwy i Gwerfyl Pierce Jones. Roedd Elwyn yn uchel ei barch ymhlith y sector cyhoeddi cyfan yng Nghymru, a phawb yn ei hoffi. Fel person hynod gyfeillgar, cymdeithasol a serchog, ac un a oedd bob amser yn hoffus o ddiymhongar, roedd hefyd yn meddu ar sgiliau arwain o'r radd flaenaf, ac yn gadarn ei benderfyniad egwyddorol i sicrhau'r hyn oedd orau i ddiwylliant Cymru yn y ddwy iaith. Yn ystod ei gyfnod ef fel Prif Weithredwr aeth y

‘THE OLD order changeth, giving way to new’: Tennyson's famous, sonorous, sententious lines could be neatly applied to the Welsh Books Council over this past year. (Although it would no doubt be presumptuous to go on to apply Tennyson's subsequent line to the Council's situation: 'And God fulfils himself in many ways'!) 2016/17 has seen the departure of a long-serving Chief Executive of high reputation, to be succeeded by an incoming Chief Executive equipped with an intriguingly different set of skills and experiences. And the Council's readiness to countenance a change as momentous as this is further evidence of its willingness to adapt to constantly changing circumstances.

Elwyn Jones had served the Council with distinction for some twenty years, latterly as its Chief Executive. Having played a part in his appointment in 2009, I then had the pleasure and privilege of serving alongside him for seven extremely enjoyable years, an experience that served only to enhance the very high estimation I had already formed of him in his previous role as effective second-in-command to Gwerfyl Pierce Jones. Elwyn commanded the respect and affection of the whole of the publishing sector in Wales in roughly equal measure. An immensely friendly, sociable and likeable individual, and always engagingly self-effacing, he nevertheless possessed leadership skills of the very highest quality, and an unwavering, principled determination to secure the very best for Welsh culture in both languages. The Council underwent significant



Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Elwyn Jones, Helgard Krause a Lucy Thomas yn edrych ar gynnyrch y flwyddyn yn ystod ymweliad y Gweinidog â Chastell Brychan

Alun Davies, Minister for the Welsh Language and Lifelong Learning, Elwyn Jones, Helgard Krause and Lucy Thomas browsing through books during the Minister's visit to Castell Brychan

Cyngor drwy gyfnod o ddatblygiad sylweddol, gan ennill canmoliaeth uchel yn dilyn asesiad trylwyr o berfformiad y sefydliad – asesiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw gorff arall yng Nghymru a allai ddod yn agos at wasanaethu diwydiant cyhoeddi'r wlad mewn modd mor effeithlon a dibynadwy â'r Cyngor Llyfrau. Roedd casgliad o'r fath yn briodol fel tystiolaeth gwbl wrthrychol, ac awdurdodol felly, o'r cyfan a gyflawnwyd gan Elwyn yn ystod ei gyfnod wrth y llyw.

Ym mis Chwefror olynwyd ef gan Helgard Krause, a ddychwelodd i'r Cyngor o Wasg Prifysgol Cymru, lle bu'n gwasanaethu fel Cyfarwyddwr; yn ystod y cyfnod hwnnw, gwelwyd y tŷ cyhoeddi'n adennill yr enw da yr oedd wedi'i golli – testun tristwch a phryder ar y pryd – ers sawl blwyddyn cyn iddi hi gael ei phenodi i'w arwain. Felly, mae Helgard yn dwyn i'w rôl newydd nid yn unig ei holl brofiad o genhadaeth y Cyngor a'i ddull o weithredu, a ddysgodd yn ystod ei chyfnod blaenorol yn gwasanaethu'r sefydliad, ond hefyd fanteision ei phrofiad dilynol fel pennaeth ar un o brif dai cyhoeddi Cymru. At y rhestr honno gellid ychwanegu ei blynyddoedd lawer o weithio, yn gynnar yn ei gyrfa, yn y maes cyhoeddi masnachol yn ne Lloegr, ac am

development during his period as its head, and it also emerged with flying colours from a searching assessment of its performance, commissioned by the Welsh Assembly Government, that roundly concluded there was no other body in Wales that was remotely capable of serving the country's publishing industry with such remarkable efficiency and reliability. Such a conclusion was the most fitting of wholly objective, and therefore authoritative, testimonies to Elwyn's conspicuous achievements during his period in charge.

He was succeeded in February by Helgard Krause, who returns to the Council following a period as Director of the University of Wales Press, a period that saw that publishing house recover the high reputation it had so sadly, and indeed worryingly, lost for several years previous to her appointment as its leader. Helgard therefore brings to her new role not only all the experience of the Council's mission and operation she had gained during her previous period in its service, but also all the benefits of her subsequent experience as head of a major Welsh publishing house; and to these may be added her many years of experience of working, during the earlier part of her career, in commercial publishing in the south of

gyfnod byr ym Moscow. Yn ogystal, bydd ei chefnidir Almaenig yn sicrhau na fydd ei bydolwg o'r maes cyhoeddi yng Nghymru yn un cul ac anymwybodol Einglanolog, sy'n rhy aml yn wir am weinyddwyr a gwleidyddion yn y Gymru gyfoes. A hithau'n rhugl ei Chymraeg oddi ar ei chyfnod gwreiddiol yn gweithio yn y Cyngor Llyfrau, mae hi eisoes wedi sicrhau cymorth parod a chydweithrediad gan sector Cymraeg y diwydiant cyhoeddi, yn ogystal â'r sector Saesneg.

Un o ddyletswyddau olaf Elwyn fel Prif Weithredwr oedd cyflwyno tystiolaeth, ar bapur ac ar lafar, i'r adolygiad diweddaraf (o lawer) o berfformiad y Cyngor, y tro hwn yng nghyd-destun yr Adolygiad Annibynnol o Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, Ken Skates. Roedd ymateb y sector cyhoeddi i'r gwahoddiad i gyflwyno sylwadau i Banel yr Adolygiad, a gadeiriwyd gan yr Athro Medwin Hughes, gymaint yn fwy na disgwyliadau'r ysgrifenyddiaeth fel bod yr Adroddiad wedi'i ddal yn ôl am fisoedd lawer y tu hwnt i'r dyddiad y disgwyliid iddo gael ei gyflwyno. Pan ymddangosodd yr Adroddiad maes o law, roedd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwelliannau yn nulliau gweithio'r Cyngor, ac mae'r rhain yn derbyn sylw ar

England, and also briefly in Moscow. Moreover, her German background will ensure that the view she takes of the Welsh publishing scene will not be a narrow, unconsciously Anglocentric one, which is too often the default case with administrators and politicians in contemporary Wales. A fluent Welsh speaker ever since her original period of work with the Council, she has already secured the ready support and co-operation of the Welsh-language sector of the publishing industry as well as that of the English-language sector.

One of Elwyn's last actions as Chief Executive was to submit evidence, both on paper and in person, to the latest review (of many) of the Council's performance, this time in the form of an Independent Review of Support for Publishing and Literature in Wales, commissioned by the Cabinet Secretary Ken Skates. So extensive well beyond the secretariat's expectations was the response of the publishing sector in Wales to the invitation to submit views to the Reviewing Panel chaired by Professor Medwin Hughes that the Report was delayed many months beyond the expected date of delivery. In the event, when in due course it appeared, it included several recommendations for improvements in the Council's operations that are



Plant Ysgol Clawdd Offa yn Llyfrgell Prestatyn yn dathlu lansiad Sialens Ddarllen yr Haf gyda Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, a'r awdur Rob Lewis
Children from Ysgol Clawdd Offa launching the Summer Reading Challenge at Prestatyn Library with Ken Skates, Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, and author Rob Lewis

hyn o bryd. Yn gynwysedig ynddo hefyd roedd nifer o argymhellion yn ymwneud â throsglwyddo rhai o'r rhaglenni a weinyddir ar hyn o bryd gan Lenyddiaeth Cymru i ofal y Cyngor Llyfrau. Cyflwynodd y Cyngor ymateb pwyllog, ond hynod bositif. Ar ôl nodi'r cyfoeth o sgiliau amrywiol a'r arbenigedd perthnasol sydd ganddo eisoes, aeth ymlaen i amlinellu'r ffyrdd y byddai trosglwyddo cyfrifoldebau o'r fath yn ei alluogi i wneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, a thrwy hynny aeddfedu'n sefydliad cenedlaethol o bwys sy'n gwasanaethu dau ddiwylliant Cymru. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, mae'r ansicrwydd yn parhau a fydd Ysgrifennydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu pob rhan o Adroddiad Hughes – neu, yn wir, unrhyw ran ohono; yn ddiweddar, mae'r ansicrwydd hwnnw wedi'i gymhlethu gan ymyriad gan y Pwyllgor Diwylliant, a benderfynodd gynnal ei ymchwiliad ei hun i'r prosesau oedd yn rheoli'r Adolygiad. Fel sy'n briodol, bu raid i'r Cyngor ymateb, drwy ei Gadeirydd a'i Brif Weithredwr, i'r cais i ailgyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad newydd hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd, aeth y Cyngor ati i gomisiynu ei adroddiad annibynnol ei hun, y tro hwn ar ffurf arolwg a wnaed gan gwmni Beaufort Research, dan y teitl Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg. Ymhlith y canfyddiadau allweddol roedd y ffaith fod 'mwy na dau o bob pump o siaradwyr Cymraeg bellach yn darllen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn', a bod nifer y rhai sy'n darllen o leiaf unwaith y mis wedi codi o un mewn pump (2012) i bron un mewn pedwar (2016). Roedd rhagor o deitlau yn cael eu darllen yn ogystal, gyda llyfrau plant yn fwyaf amlwg yn achos rhai o oedran rhieni ifanc, a bywgraffiadau a hunangofiannau yn apelio fwyaf at ddarllenwyr hŷn. Er bod yna, yn ddiamau, lawer o ffactorau wedi chwarae rhan yn y cynnydd calonogol hwn mewn darllenwyr llyfrau Cymraeg, credaf y gellir honni'n bendant fod gwelliannau sylweddol yn y testunau a gynhyrchir, a'r amrywiaeth eang o deitlau sydd ar gael – gwelliannau a ddeilliodd o'r cynlluniau arloesol y bu modd i'r Cyngor eu cyflwyno yn sgil cynnydd yn y cymorth ariannol ac addasiadau a wnaed i gynlluniau grant – wedi cyfrannu'n sylweddol iawn at y trawsnewidiadau a nodwyd.

O ran sefyllfa ariannol y Cyngor, llwyddwyd i'w sefydlogi ryw gymaint dros y flwyddyn ddiwethaf, diolch i'r cynnydd bychan ond hynod dderbyniol yn y grant cymorth gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd croeso arbennig i'r symiau un-tro a gyfrannwyd

presently being addressed. And it also featured several recommendations that involved the transfer of some of the programmes currently being administered by Literature Wales to the Council's care. The Council's response was measured but extremely positive. Having noted the skill sets and wealth of relevant expertise already at its disposal, it proceeded to outline the ways in which such a transfer of responsibilities would allow it to significantly enhance the service it offered to the Welsh publishing industry and thereby to mature into a major, bicultural national organization. However, at the time of writing, it remains uncertain whether the Cabinet Secretary will decide to implement all, or indeed any, of the Hughes Report, and uncertainty has latterly been compounded by the intervention of the Culture Committee, that decided to conduct its own investigation into the processes governing the Review. The Council has duly had to respond, through its Chair and Chief Executive, to the request that it provide evidence again to this new enquiry.

The past year has also seen the Council commission its own independent report, this time in the form of a survey, by Beaufort Research, of Buying and Reading Welsh-language Books. Amongst its key findings was that 'more than two fifths of Welsh speakers now read a Welsh-language book at least once a year', and that the number of those reading at least once a month had risen from one in five (2012) to almost one in four (2016). More titles were also being read, with books for children predominating in the case of those of young parent age, and biographies and memoirs still appealing the most to older readers. While there have no doubt been many factors involved in this encouraging increase in Welsh-language book readers, it may, I believe, be safely asserted that significant improvements in text production and notable extension in the variety of titles on offer – improvements that have been driven by the innovations the Council has been able to introduce in the wake of enhanced funding and subsequent adjustments to grant schemes – have contributed very substantially to the transformations noted.


As for the Council's financial situation, it precariously stabilised over the past year, thanks to the slight, but greatly appreciated, increase in governmental grant-in-aid. And particularly welcome were the one-off sums generously made available to enable vital maintenance work to be completed both at Castell Brychan and the Distribution Centre. Particular thanks should go to the Cabinet Secretary

yn hael i alluogi'r Cyngor i wneud gwaith cynnal a chadw hollbwysig yng Nghastell Brychan a'r Ganolfan Ddosbarthu. Mae ein diolch yn fawr i Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet, am y rhan allweddol a chwaraewyd ganddo yn y penderfyniad i alluogi'r gwelliannau hynod amserol hyn i ddigwydd. Ond cyn gynted ag y caiff un broblem ei datrys mae un arall yn codi'i phen, ac un o ddarganfyddiadau cyntaf y Prif Weithredwr newydd wrth iddi ddechrau yn ei swydd oedd bod y cwmni technoleg gwybodaeth sy'n gyfrifol am gynnal y gwasanaethau digidol y mae holl fusnes y Cyngor yn dibynnu arnynt ar fin dirwyn i ben; oherwydd hynny bydd raid i'r Cyngor, dros y blynyddoedd nesaf, wynebu'r her anferthol (a'r gost sylweddol gyfatebol) o newid y system gyfan o'r bôn i'r brig. Yn naturiol, mae'r trafodaethau cychwynnol ynghylch ariannu ychwanegol eisoes ar y gweill gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'i gynghorwyr.

Ymhlith y newidiadau staffio a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodwyd Helen Jones yn Bennaeth yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen. Unwaith eto eleni, fy nyletswydd bleserus yw cydnabod, â diolch diffuant, gyfraniad nid yn unig y staff cyflogedig i waith y Cyngor, ond hefyd gyfraniad y llu o wirfoddolwyr di-dâl sy'n gwasanaethu ar ei bwyllgorau niferus. Yn yr oes sydd ohoni prin yw'r sefydliadau hynny, hyd yn oed ymhlith y rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus, lle nad yw'r aelodau lleeg yn derbyn tâl. Y mae, felly, yn achos balchder arbennig i mi gael bod yn Gadeirydd ar sefydliad cenedlaethol sydd, yn yr oes ariangar hon, yn parhau i allu dibynnu ar wasanaeth anhunanol y rhai hynny sy'n arddangos mewn modd cwbl ddiuedd eu hymroddiad i'w genhadaeth ddwyieithog. Mae'n sefyllfa unigryw, ac yn un y gobeithiaf yn fawr y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ei chydabod a'i pharchu.

Ken Skates for the vital part he played in enabling these extremely timely improvements. But no sooner is one problem solved than another arises, and one of the incoming Chief Executive's first discoveries, on beginning in her new post, was that, owing to the imminent winding up of the IT company responsible for maintaining the digital services upon which the Council's entire business depends, the Council is going to be faced over the coming years with the major challenge (and corresponding major cost) of total replacement. Preliminary discussions concerning additional funding have, of course, already begun with the Cabinet Secretary and his advisers.

Staff changes this past year have included the appointment of Helen Jones as Head of the Children's Books and Reading Promotion Department, and once more it is my pleasant duty to acknowledge, with great gratitude, the contribution not only of the salaried staff to the Council's work but also that of the army of unpaid volunteers who serve on its many committees. In our day and age, few indeed are even the publicly funded organizations whose lay members are thus unremunerated. It is therefore a matter of particular pride to me to be Chair of a national organization that continues in this mercenary age to be able to rely on the utterly selfless service of those who thus dispassionately demonstrate their devotion to its bicultural mission. It is a unique situation, and one I devoutly hope that the members of the National Assembly of Wales will acknowledge and respect.



Yr Athro M. Wynn Thomas
Professor M. Wynn Thomas
Cadeirydd *Chairman*





Adroddiad y Prif Weithredwr

Chief Executive's Report

PLESER O'R MWYAF i mi oedd ymuno â Chyngor Llyfrau Cymru ym mis Chwefror 2017, yn enwedig ar adeg pan oedd gogwydd y blynyddoedd diwethaf at doriadau parhaus yn y gyllideb wedi cael ei wrydroi yn dilyn etholiad y Cynulliad yn 2016, gan arwain at gynnydd o 2.6%. Mewn sefydliad sy'n credu'n gryf yn ei rôl fel hwylusydd, mae cynnydd o'r fath yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol gan ei fod o fudd uniongyrchol i gyhoeddwr, ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus a gawn gan Lywodraeth Cymru.

Roeddwn yn arbennig o falch o allu dod â'm profiad personol i fy hun, fel rhywun a ddysgodd Gymraeg fel oedolyn, i'r cynllun i sefydlu cyfres newydd o lyfrau wedi eu hanelu at rai sy'n dysgu Gymraeg. Mae'r gyfres yn gosod pwyslais penodol ar annog mwynhad o ddarllen Gymraeg yn y camau cynnar o ddysgu'r iaith, a byddwn yn cefnogi 20 o deitlau newydd mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol. Roedd y prosiect arbennig hwn hefyd yn galw am ragor o hyfforddiant a gwaith datblygu ymhlith cyhoeddwr, ynghyd â gweithgareddau hyrwyddo wedi eu trefnu mewn cydweithrediad â gwahanol gwmnïau i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Cafodd y cyllid ychwanegol effaith uniongyrchol a di-oed ar gyhoeddwr: gwelwyd Firefly Press yn ymuno â rhengoedd y cyhoeddwr rhaglen, yn dilyn eu llwyddiant yn cyhoeddi llyfrau Saesneg i blant, ac yn y dyfodol bydd modd iddynt fanteisio ymhellach ar gefnogaeth fwy strwythuredig a

IT WAS A GREAT PLEASURE to join the Welsh Books Council in February 2017, especially at a time when the trend of recent years of continuing budget cuts was reversed following the 2016 Welsh Assembly election, resulting in an actual increase of 2.6%. In an organisation that firmly believes in its role as enabler, such increases make a tangible difference as they benefit publishers directly and we are grateful for the continued support we receive from Welsh Government.

I was particularly delighted to be able to bring my own personal experience, as someone who learned Welsh as an adult, to the inception of a new series aimed at Welsh learners. The series places a particular emphasis of instilling a pleasure of reading in Welsh early on in the journey of language acquisition, and we will be supporting 20 new titles in collaboration with the National Centre for Learning Welsh. This particular project also called for additional training and development amongst publishers, as well as collaborative cross-company promotional activities in support of Welsh Government's vision to increase the number of Welsh speakers to one million by 2050.

The additional funding also had a direct and immediate impact on publishers: we saw Firefly Press join the ranks of programme publishers after an impressive first foray into English-language publishing for children, and they will be able to further benefit from the more structured and strategic support in future. Marketing capacity was also increased with a number of new posts created,

strategol. Cafwyd cynnydd hefyd yn y capasiti marchnata, a chrëwyd nifer o swyddi newydd gan roi pwyslais arbennig ar lyfrau plant. Mae hyn yn rhan o'r cynllun parhaus i ddatblygu talent sydd ar gael eisoes ymhlith awduron, ond mae hefyd yn cefnogi'r ffocws cynyddol ar ddarlunio a dylunio creadigol. Bydd y dull cydlynol hwn yn ein galluogi i ymgorffori strategaeth newydd ar gyfer llyfrau plant yn dilyn cyhoeddi adroddiad Dr Siwan Rosser, Adolygiad o Lyfrau Cymraeg ar gyfer Plant ac Oedolion Ifanc.

Ehangwyd y cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol mewn meysydd eraill yn ogystal, a chynhaliwyd cynhadledd undydd hynod lwyddiannus ar gyfer cyhoeddwy'r llyfrwerthwyr Cymraeg, gyda'r gobaith o'i gwneud yn ddigwyddiad blynyddol. Mae cyfleoedd hyfforddi ychwanegol ym meysydd marchnata, cyllid a rheoli busnes hefyd ar y gweill ar gyfer y misoedd sydd i ddod.

Er gwaethaf amgylchiadau heriol y farchnad a'r gystadleuaeth gynyddol, nid yn unig o gyfeiriad dosbarthwyr eraill ond hefyd gan weithgareddau hamdden a'r cyfryngau cymdeithasol, llwyddodd y Ganolfan Ddosbarthu i gynyddu'r gwerthiant o 0.45% o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn deyrnged nid yn unig i waith caled ac ymroddiad fy nghydweithwyr, ond hefyd i ddyfalbarhad llyfrwerthwyr yng Nghymru; mae eu cyfraniad hwy i fywyd diwylliannol eu hardaloedd lleol yn hollbwysig yn y gwaith o gefnogi cymunedau gwydn a chydlynol. Fel cydnabyddiaeth o'r pwysigrwydd hwnnw y gwnaed buddsoddiad sylweddol i ddatblygu ymhellach y llwyfan ar-lein unigryw hwnnw, Gwales/Siop, at ddefnydd y llyfrwerthwyr.

Diolch i grant cyfalaf un-tro gan Lywodraeth Cymru, bu modd i ni hefyd fuddsoddi mewn nifer o brosiectau isadeiledd – megis gosod llawr *mezzanine* newydd yn y Ganolfan Ddosbarthu, ac adnewyddu Castell Brychan – a gwneud nifer o welliannau ym maes TGCh, sydd wedi arwain at gynnig gwasanaethau gwell, a mwy effeithiol, i randdeiliaid allweddol.

Bellach, mae cysylltiadau dwfn ac ystyrlon gyda sefydliadau trydydd sector eraill sy'n ymwneud â llenyddiaeth, hyrwyddo darllen a'r diwydiant llyfrau'n gyffredinol yn bwysicach nag erioed os ydym i gwrdd â'r heriau yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Pleser, felly, oedd cwrdd â chyfeillion o BookTrust Cymru, The Reading Agency, CILIP Cymru, a Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, a threfnu i gydweithio ymhellach â hwy. Bydd y cysylltiadau hynny'n ategu ac yn ychwanegu at y gwaith rydym yn ei gyflawni eisoes

placing a particular emphasis on children's books. This forms part of the ongoing development of existing talent amongst writers, but also supports an increased focus on illustration and creative design. This cohesive approach will enable us to embed a new strategy for children's books following the publication of Dr Siwan Rosser's Survey of Welsh-language Books for Children and Young Adults.

Training and professional development opportunities were expanded in other areas too, and we held a very successful day conference for Welsh-language publishers and bookshops with a view to making it an annual event. Additional training opportunities in marketing, finance and business management are also scheduled for the coming months.

In spite of challenging market conditions and ever increasing competition, not only from other distributors but also from other leisure activities and social media, the Distribution Centre increased year on year sales by 0.45%. This is testament not only to my colleagues' hard work and dedication but also to the determination of booksellers in Wales; their contribution to local cultural life remains vital in supporting resilient and cohesive communities. It was in recognition of that importance that we made a major investment in further developing the bespoke online bookseller platform Gwales/Shop.

Due to a one-off capital grant from Welsh Government we were also able to invest in a number of infrastructure projects, such as a new mezzanine level for the Distribution Centre and the renovation of Castell Brychan, and to make a number of ITC improvements which have resulted in better, more streamlined services offered to key stakeholders.

Deep and meaningful connections with other third sector organisations engaged in literature, reading promotion and the book industry as a whole are now more important than ever if we are to meet the challenges following the introduction of the Well-being of Future Generations (Wales) Act. It has been a great pleasure therefore to meet and extend collaboration with colleagues from BookTrust Cymru, The Reading Agency, CILIP Cymru Wales, and the Society of Chief Librarians. Those connections will complement and further enhance our existing work funded by Welsh Government's Education Department, such as The Biggest Book Show on Earth which was held this year at Barry to celebrate World Book Day and attracted around 700 pupils, whilst the Summer Reading Challenge in libraries had over 39,000 participants.



Helgard Krause gydag enillywyr Gwobrau Tir na n-Og 2017, sef Manon Steffan Ros, enillydd y categori uwchradd, a Luned Aaron, enillydd y categori cynradd

Helgard Krause with Manon Steffan Ros and Luned Aaron, winners of the Welsh-language categories of the Tir na n-Og Awards 2017

gyda chymorth ariannol gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, yn cynnwys digwyddiadau megis Sioe Lyfrau Fwyaf y Byd, a gynhaliwyd eleni yn y Barri i ddathlu Diwrnod y Llyfr gan ddenu tua 700 o ddisgyblion, tra bod dros 39,000 o blant wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf mewn llyfrgelloedd.

Gan adeiladu ar lwyddiannau blynyddoedd thematig yn y gorffennol, a choleddu'r syniad o Flwyddyn y Chwedlau, aethom ati i wneud yn fawr o'r cyfle amlwg a gaed pan enwyd y daith drên o Gyffordd Dyfi i Bwllheli ym mhapur newydd *The Guardian* yn un o'r deg taith brydferthaf yn y byd. Yn ogystal â chreu catalog thematig yn tynnu sylw at deitlau perthnasol, buom yn cydweithio â chwmni Trenau Arriva a dwy ysgol leol i drefnu 'Chwedlau ar y Cledrau', digwyddiad dros ddau ddiwrnod lle cafodd y plant nid yn unig ddysgu mwy am chwedlau Cymru yn ystod y daith, ond cyfle hefyd i ymweld â MOMA, yr amgueddfa celfyddyd fodern ym Machynlleth, a chastell Harlech. Cafodd y daith ei ffilmio gan S4C a'i dangos ar y rhaglen deledu

Building on the successes of previous themed years, and embracing the Year of Legends, we seized the obvious opportunity that presented itself when the rail journey from Dyfi Junction to Pwllheli was named as one of the ten most beautiful in the world by *The Guardian* newspaper. Aside from creating a themed catalogue featuring relevant titles, we teamed up with Arriva Trains and two local schools for 'Tales on the Rails', a two-day event where children learned more about Welsh myths and legends during the journey but also visited MOMA, the museum of modern art in Machynlleth, and Harlech castle. The trip was filmed by S4C, shown on the magazine programme *Heno*, and is now also available on YouTube; it also prompted other train companies to engage with us and offer more opportunities to promote reading for pleasure in collaboration with the private sector.

The main digital output of publishers remains e-books, and we currently have over 1,500 e-books available to buy on Gwales.com of which over 350 are



Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gyda Helgard Krause, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau, ac Arwel Evans, Pennaeth y Ganolfan Ddosbarthu, ar ymweliad â'r Ganolfan yn ddiweddar

Kirsty Williams, Cabinet Secretary for Education, with Helgard Krause, Chief Executive of the Welsh Books Council, and Arwel Evans, Head of the Distribution Centre, on a recent visit to the Centre

Heno, a bellach mae hi hefyd ar gael ar YouTube; bu'r daith yn sbardun i gwmnïau trenau eraill ymgysylltu â ni, a chynnig rhagor o gyfleoedd i hyrwyddo darllen er mwyn pleser mewn cydweithrediad â'r sector preifat.

E-lyfrau yw prif gynnyrch digidol y cyhoeddwr o hyd, ac ar hyn o bryd mae dros 1,500 o e-lyfrau ar gael i'w prynu ar Gwales.com, gyda thros 350 ohonynt yn llyfrau Cymraeg. Bellach, mae gan Gwales.com ei hun dros 25,000 o ddefnyddwyr o 170 o wledydd, gan brofi pa mor bell mae llyfrau o Gymru'n cyrraedd; yn y cyd-destun hwn, mae'n braf iawn gallu nodi bod cynnydd o bron i 20% yn y nifer o bobl sy'n ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol ers Ionawr 2017.


Rydym yn ffodus ein bod yn gallu manteisio ar brofiad eang ein Cadeirydd, yr ymddiriedolwyr ac aelodau o'r paneli, sy'n rhoi mor hael a rhydd o'u hamser a'u gwybodaeth. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant iddynt am y gwaith gwirfoddol hwn, gan ei fod wrth wraidd cymaint o'r hyn rydym yn ei wneud. Yn ogystal, carwn dalu teyrnged i'm cyd-weithwyr am eu croeso cynnes a'u cefnogaeth ddiplino a hefyd, yn hollbwysig, am fod mor barod i gofleidio'r newidiadau a gyflwynwyd gan Brif Weithredwr newydd. Bydd y flwyddyn nesaf yn dod â nifer o heriau yn ei sgil, ac nid y lleiaf o'r rheini yw'r cyfleoedd newydd a amlygwyd yn adroddiad Medwin Hughes. Gyda'r sgiliau arbenigol ac amrywiol sydd ymhlith staff Cyngor Llyfrau Cymru, a chyd record gadarn o gyflawniad y tu ôl i ni, rwy'n ffyddiog ein bod yn gwbl gymwys nid yn unig i wella ein gwasanaethau ymhellach, ond hefyd i ehangu ein cylch gwaith er lles cyhoeddwr, awduron, darllenwyr, a thrigolion Cymru yn gyffredinol.

available in the Welsh language. Gwales.com itself now has over 25,000 users from 170 countries, which confirms the wide reach books from Wales do achieve, and in this context it is particularly pleasing to note that we have had an increase of nearly 20% in the number of social media followers since January 2017.

We are fortunate to be able to draw on the extensive experience of our Chairman, trustees and panel members, who so generously and freely give of their time and knowledge. I would like to sincerely thank them for this voluntary work, as it underpins so much of what we do. I would also like to pay tribute to my colleagues who have been unfailingly welcoming and supportive and, crucially, open to embracing the changes introduced by a new Chief Executive. The coming year will bring a number of different challenges, not least the new opportunities highlighted in the Medwin Hughes report. I am confident that with the impressive and diverse skill sets evident amongst staff at the Welsh Books Council, and with a solid track record of achievement behind us, we are well equipped not only to further improve our services but also to widen our remit to the benefit of publishers, authors, readers and Wales as a whole.



Helgard Krause
Prif Weithredwr *Chief Executive*



Grantiau Cyhoeddi

Publishing Grants

YN DILYN sawl blwyddyn o ansicrwydd ariannol, croesawyd yn fawr y newyddion a ddaeth yn 2016/17 y byddai'r gyllideb grantiau ar gyfer 2017/18 yn cael ei chynyddu 2.6%. Roedd yr amseru'n ffodus oherwydd, i'r Adran Grantiau Cyhoeddi, roedd 2016/17 yn flwyddyn o edrych ymlaen, gyda phedair proses dendro wahanol i'w dyfarnu, a chyfle i sicrhau y byddai'r buddsoddiad hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sector. Dros y tudalennau sy'n dilyn manylir ar rai o'r datblygiadau a ariennir gan y cyllid hwn, a bydd prosiectau eraill yn derbyn sylw yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Dyma hefyd ddiwedd y Flwyddyn Antur a dechrau Blwyddyn y Chwedlau, ac aeth nifer o gyhoeddwy'r ati i wneud defnydd da o arian grantiau i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y fenter hon a gydlynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grantiau a weinyddir gan y Cyngor yn fuddiol i bob elfen o'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, gan gefnogi llyfrwerthwyr, cyhoeddwy'r ac awduron. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau amrywiaeth eang o lyfrau a chylchgronau atyniadol o safon uchel mewn fformatau print a digidol, a fydd yn apelio at ystod eang o ddarlennwyr ac yn helpu i hybu diwylliant Cymru ar lwyfan rhyngwladol.

Cyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd i lyfrau a chylchgronau Cymraeg yn 2016/17 oedd £1,630,549, yn cynnwys £211,869 i gefnogi Golwg 360, y wefan newyddion dyddiol, ac i weinyddu'r tendr ar gyfer y cynllun hwn. Cyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd i lyfrau a chylchgronau Saesneg yn 2016/17 oedd £670,322.

FOLLOWING several years of financial uncertainty, 2016/17 brought the welcome news that the grants budget for 2017/18 would be increased by 2.6%. This was fortunate timing since, for the Publishing Grants Department, 2016/17 was a year of looking ahead, with four different tender processes to award and the opportunity to make sure this investment could make a real difference to the sector. Some of the developments this funding will achieve are detailed over the next few pages, while other projects will feature in next year's report. This was also the end of the Year of Adventure and the beginning of the Year of Legends, and many publishers made excellent use of grant funding to ensure that they made the most of the opportunities offered by this Welsh Government initiative. The grants administered by the Council benefit every element of the publishing industry in Wales, supporting booksellers, publishers and authors. This funding ensures a broad variety of attractive, high-quality books and magazines in both print and digital formats that will appeal to a range of readers and help to promote the culture of Wales on an international stage.

The total grants distributed to Welsh-language books and magazines in 2016/17 was £1,630,549, which included £211,869 to support the daily news website Golwg 360 and to administer the tender for this scheme. The total grants distributed to English-language books and magazines in 2016/17 was £670,322.

Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)

Arolwg Llyfrau Plant Comisiynodd y Panel Grantiau Cyhoeddi Cymraeg waith ymchwil gan Dr Siwan Rosser, Prifysgol Caerdydd, ar natur y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyflwynodd ei chanfyddiadau cychwynnol i'r Panel ym mis Mawrth 2017. Bydd yr adroddiad yn cyflwyno argymhellion a fydd yn berthnasol nid yn unig i wahanol adrannau'r Cyngor ond hefyd i'r sector yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag i rai o adrannau'r Llywodraeth a phartneriaid eraill megis y cyfryngau yng Nghymru.

Ewro 2016 Cefnogwyd cyhoeddwy oedd am ymateb yn gyflym i lwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym Mhencampwriaeth Ewrop. Rhoddwyd cymorth i waith awduron a dylunwyr ar gyfer y cyfrolau canlynol: *Bardd ar y bêl*, casgliad o 'farddoniaeth trydar' gan Llion Jones (Cyhoeddiadau Barddas); y nofel *Allez les Gallois!* gan Daniel Davies (Gwasg Carreg Gwalch); a phedair cyfrol o wasg y Lolfa – dwy gyfrol o atgofion, sef *Ibuprofen s'il vous plaît!* gan Dewi Prysor a *Merci Cymru* a olygwyd gan Tim Hartley; y gwyddoniadur manwl, *Y Crysau Cochion*, gan Gwynfor Jones; a'r llawlyfr hylaw i blant, *Ewro 2016*, gan Dylan Ebenezer.



Llyfr am ddementia Cefnogodd y Cyngor lyfr dwyieithog arbennig iawn i gynorthwyo dioddefwyr dementia a'u cefnogwyr. Mae *Hen Wlad Fy Nhadau* yn gasgliad trawiadol o ddelweddau eiconig a dyfyniadau Cymraeg cofiadwy. Hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres gan y cyhoeddwy Pictures to Share, ond y cyntaf ar gyfer y farchnad Gymraeg. Mae'r dyfyniad ar y ddalen flaen yn gosod y cyd-destun: 'Eich mamiaith yw iaith eich teimladau.'

Publishing Grants (Welsh-language)

Review of Children's Books The Publication Grants Panel (Welsh-language) commissioned Dr Siwan Rosser of Cardiff University to conduct research into the nature of the provision of books for children and young adults. She presented her initial findings to the Panel in March 2017. The report will present recommendations that are relevant not only to the Council's various departments, but also to the sector as a whole, to some Welsh Government departments and to other partners such as the media in Wales.

Euro 2016 Support was given to publishers who were eager to respond quickly to the success of Wales's football team in the European Championships. Support was provided for authors and designers in respect of the following titles: *Bardd ar y bêl*, a collection of 'Twitter poems' by Llion Jones (Cyhoeddiadau Barddas); the novel *Allez les Gallois!* by Daniel Davies (Carreg Gwalch); and four titles from Y Lolfa – two volumes of reminiscences, namely *Ibuprofen s'il vous plaît!* by Dewi Prysor and *Merci Cymru*, edited by Tim Hartley; the detailed encyclopaedia, *Y Crysau Cochion*, by Gwynfor Jones; and the useful handbook for children, *Ewro 2016*, by Dylan Ebenezer.

A book about dementia The Council supported a very special bilingual volume to help those suffering from dementia and their carers. *Hen Wlad Fy Nhadau* is a striking collection of iconic images and memorable Welsh excerpts. It is the latest in a series by publishers Pictures to Share, but the first produced for the Welsh-language market. The quotation on the first page sets the context: 'Your mother tongue is the language of your feelings.'



Tabl 1 Crynodeb o Wariant y Grantiau Cyhoeddi Cymraeg 2016/17

Table 1 Summary of Welsh-language Publishing Grants Expenditure 2016/17

	£
Cyhoeddwy Rhaglen / Programme Publishers	£379,163
Grantiau Cyhoeddi Unigol / Individual Publishing Grants	£69,900
Taliadau Perfformiad etc. / Performance Payments etc.	£5,800
Taliadau i Awduron a Deunydd Gweledol / Payments for Authors and Visual Material	£297,797
Cefnogi Swyddi a Hyfforddiant / Supported Posts and Training	£210,176
Cylchgronau / Magazines	£357,750
Arian i'r Wasg Gymraeg (Golwg 360) / Support for the Welsh-language Press (Golwg 360)	£211,869
Deunydd Electronig / Electronic Material	£1,500
Gemau / Games	£3,200
Llyfrwerthwyr / Booksellers	£25,976
Marchnata / Marketing	£52,768
Ymchwil i'r Farchnad / Market Research	£14,650
	£1,630,549

Cofio Wrth inni barhau i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Mawr, cefnogwyd ysgrifennu a chyhoeddi *Mametz* (Gwasg Gomer), sef nofel gan Alun Cobb, ac *Adref o Uffern* (Gwasg Carreg Gwalch) gan Garffild Lloyd Lewis a Lyn Ebenezer, sy'n adrodd hanes Ellis Williams o Drawsfynydd, un o'r dwsin cyntaf ym Mhrydain i gael llawdriniaeth i ailadeiladu ei wyneb. Yn ystod 2016 hefyd roedd Cymru'n cofio trychineb Aber-fan, a chefnogwyd Cyhoeddiadau Barddas i gyhoeddi *Dagrau Tost*, blodeugerdd o gerddi yn ymateb i'r trychineb, wedi ei golygu gan Christine a Wyn James.

Grantiau llyfrau Mae'r Cyngor yn falch o ddarparu grantiau i'r cyhoeddwyd i gefnogi rhai o'n prif awduron. Yn ystod 2016/17 cyhoeddwyd *Y Gwreiddyn*, Caryl Lewis, *Jwg ar Seld*, Lleucu Roberts a *Rebel Rebel*, Jon Gower, gan wasg y Lolfa gyda grantiau o hyd at £7,500. Yn yr un modd, cefnogwyd rhai o gyhoeddiadau mwyaf trawiadol y flwyddyn gan grantiau dylunio'r Cyngor (hyd at £4,500), gan gynnwys y llyfr coginio *Blas/Taste* gan Lisa Fearn a *Tywydd Mawr* gan Iestyn Hughes (Gwasg Gomer), ac *ABC Byd Natur* gan Luned Aaron (Gwasg Carreg Gwalch), enillydd un o Wobrau Tir na n-Og 2017.

Remembrance As we continued to commemorate the centenary of the Great War, support was provided to write and publish *Mametz* (Gomer), a novel by Alun Cobb, and *Adref o Uffern* (Carreg Gwalch) by Garffild Lloyd Lewis and Lyn Ebenezer, recounting the experiences of Ellis Williams from Trawsfynydd, one of the first dozen people in Britain to undergo facial reconstruction surgery. In 2016 Wales also commemorated the Aber-fan disaster, and Cyhoeddiadau Barddas were supported to publish *Dagrau Tost*, an anthology of poems written in response to the disaster, edited by Christine and Wyn James.

Grants for books The Council is pleased to provide grants to publishers in support of some of our main authors. In 2016/17 *Y Gwreiddyn* by Caryl Lewis, *Jwg ar Seld* by Lleucu Roberts and *Rebel Rebel* by Jon Gower were published by Y Lolfa with grants of up to £7,500. Similarly, some of the year's most striking publications were supported by the Council's design grants (up to £4,500), including the cookery book *Blas/Taste* by Lisa Fearn and *Tywydd Mawr* by Iestyn Hughes (Gomer), and *ABC Byd Natur* by Luned Aaron (Carreg Gwalch), winner of one of the 2017 Tir na n-Og Awards.

Tabl 2 Grantiau i Gyhoeddwr Llyfrau Cymraeg 2016/17
Table 2 Grants for Welsh-language Book Publishers 2016/17

Cyhoeddwr / Publisher	Llyfrau Plant / Children's Books		Llyfrau Oedolion / Adult Books		Cyfansymiau / Totals	
	Teitlau / Titles	Grant	Teitlau / Titles	Grant		
Rhaglenni / Programmes		£		£		£
Cyhoeddiadau Barddas	0	0	8	28,400	8	28,400 i
Gwasg Carreg Gwalch	15	31,000	20	54,180	35	85,180 ii
Gwasg Gomer	26	45,737	23	50,550	49	96,287 iii
Gwasg y Dref Wen	27	43,700	0	0	27	43,700 iv
Rily	20	32,000	0	0	20	32,000 v
Y Lolfa	14	24,429	27	69,167	41	93,596 vi
	102	176,866	78	202,297	180	379,163
Grantiau Unigol / Individual Grants						
Atebol	8	11,600	0	0	8	11,600
Cyhoeddiadau Barddas			1	1,600		
Cyhoeddiadau Curiad	1	1,000	0	0	1	1,000
Cyhoeddiadau'r Gair	6	4,600	4	4,400	10	9,000
Dalen Llyfrau	4	5,000	0	0	4	5,000
Dalen Newydd			5	1,400	5	1,400
Gwasg Carreg Gwalch			1	2,300	1	2,300
Gwasg Gee			2	4,500	2	4,500
Gwasg Gomer			1	250	1	250
Gwasg Prifysgol Cymru			1	1,000	1	1,000
Gwasg y Bwthyn			9	16,050	9	16,050
Honno			1	1,700	1	1,700
Pic2 Share			1	500	1	500
Rily	1	2,800			1	2,800
Theatr Genedlaethol Cymru			1	1,600	1	1,600
Y Lolfa	1	2,250	4	7,350	5	9,600
	21	27,250	31	42,650	52	69,900
17 Cyhoeddwr / 17 Publishers	123	204,116	109	244,947	232	449,063
Tâl perfformiad etc. / Perf. payments etc.	(14)	2,800	(15)	3,000	(29)	5,800
Catalog Llyfrau Plant		10,000				10,000
		10,600		5,000		15,600
	123	214,716	109	249,947	232	464,663

- i yn cynnwys un taliad ar gyfer chwarter cyntaf 17/18 ar raddfa is / includes one payment for the first quarter of 17/18 at a lower rate.
- ii yn cynnwys taliad ychwanegol o £2,000 ar gyfer adargraffu a thaliad ar raddfa uwch ar gyfer chwarter cyntaf 17/18 oherwydd cyhoeddi un llyfr oedolion ychwanegol / includes an additional payment of £2,000 for reprinting and a payment at a higher rate for the first quarter of 17/18 due to publishing one extra adult book.
- iii yn cynnwys un taliad ymlaen o 15/16 ar raddfa uwch ac un taliad ymlaen ar gyfer chwarter cyntaf 17/18 ar raddfa is / includes one forward payment from 15/16 at a higher rate and one payment for the first quarter of 17/18 at a lower rate.
- iv yn cynnwys un taliad chwarterol ar gyfer adargraffu 17/18 / includes one quarterly payment for reprinting 17/18.
- v yn cynnwys cynnydd yn y Grant Rhaglen a £3,000 ychwanegol ar gyfer adargraffu / includes an increase in the Programme Grant and an additional £3,000 for reprinting.
- vi yn cynnwys taliad uwch ar gyfer chwarter cyntaf 17/18 oherwydd cynnydd yn y nifer o lyfrau a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn honno / includes one higher payment for the first quarter of 17/18 due to an increase in the number of books to be published in that year.

Llyfrau newydd i ddysgwyr

Yn ystod 2016/17 cytunodd y Panel Grantiau Cyhoeddi Cymraeg i neilltuo arian ar gyfer cynllun mentrus i gyhoeddi 20 o lyfrau hamdden ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Roedd y datblygiad hwn yn amserol iawn o ystyried ymrwymiad y Llywodraeth i feithrin miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a'u gweledigaeth wrth sefydlu Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Datblygodd y cynllun drwy gydweithrediad agos rhwng y Ganolfan newydd a'r Cyngor Llyfrau. Am y tro cyntaf bydd dosbarthiadau Cymraeg i oedolion yn dilyn yr un cwricwlwm, sy'n caniatáu i gyhoeddwydd ddilyn canllawiau ieithyddol pendant gan fod yn hyderus y bydd y llyfrau'n hygyrch i ddarlennwyr ledled Cymru. Cyn hyn, dim ond 49 o lyfrau hamdden oedd wedi eu cyhoeddi ar gyfer dysgwyr, a hynny heb ddilyn unrhyw ganllawiau iaith penodol. Gobeithir y bydd y llyfrau yn atyniadol i ddysgwyr cyfredol, dysgwyr sydd wedi cefnu ar ddosbarthiadau ffurfiol, ac unigolion o bob math sy'n hyderus wrth siarad ond yn llai hyderus wrth ddarllen yr iaith.

Penodwyd Dr Mair Rees o Gasnewydd yn olygydd ymgynghorol ar y cynnyrch, a bydd yn gweithio'n agos gyda phedwar cyhoeddwr: Atebol, Canolfan Adnoddau Addysg, Prifysgol Aberystwyth; Gwasg Gomer a'r Lolfa.



New books for Welsh learners

In 2016/17, the Publication Grants Panel (Welsh-language) agreed to earmark funding for an enterprising scheme to publish 20 leisure books for Welsh learners. This development was very timely in the wake of the Welsh Government's commitment to nurture a million Welsh speakers by 2050, and their vision in developing the National Centre for Learning Welsh.

The scheme was developed through close co-operation between the new Centre and the Books Council. For the first time ever, Welsh classes for adults will follow the same curriculum, allowing publishers to follow clear linguistic guidelines in the knowledge that the books will be accessible to readers throughout Wales. Until now, only 49 leisure books for learners had been published, and they had not followed any clear linguistic guidelines. It is hoped that the books will be attractive to current learners, learners who no longer attend formal classes, and individuals of all types who are confident speakers of the language, but less confident as readers.

Dr Mair Rees from Newport was appointed as consultant editor for the material, and she will be working closely with four publishers: Atebol; CAA Cymru, Aberystwyth University; Gomer and Y Lolfa.



Tabl 3 Prif Gomisiynau Awduron Cymraeg Table 3 Main Commissions for Welsh-language Authors

Llyfrau a gyhoeddwyd 2016/17 Books published 2016/17

Cyhoeddwr / Publisher	Teitl / Title	Awdur / Author
Gwasg Carreg Gwalch	Adref o Uffern	Garffild Lloyd Lewis / Lyn Ebenezer
	Allez Les Gallois!	Daniel Davies
	Cam Arall i'r Gorffennol	Rhys Mwyn
Gwasg Gomer	Arwyn Herald – Hunangofiant Ffotograffydd Papur Newydd	Arwyn Roberts / Tudur Huws Jones
	Llestr Bregus – David Lloyd	Hywel Gwynfryn
	Optimist Absoliwt	Menna Elfyn
Gwasg y Bwthyn	Plant y Dyfroedd	Aled Islwyn
	Cyffordd i Gyffordd	Ian Parri
	Y Lolfa	Alun Gibbard
Y Lolfa	Carwyn: Yn Erbyn y Gwynt	Alan Llwyd
	Gwenallt: Cofiant D. Gwenallt Jones 1899–1968	Lleucu Roberts
	Jwg ar Seld	Dai Jones / Lyn Ebenezer
	Tra Bo Dai	Euron Griffith
	Tri Deg Tri	Caryl Lewis
	Y Gwreiddyn	Bet Jones
	Y Nant	Haf Llewelyn
	Y Traeth	

Tabl 4 Cylchgronau Cymraeg a gefnogwyd 2016/17 Table 4 Welsh-language magazines supported 2016/17

	£
Barddas	24,000
Barn	80,000
Cip	26,000
Cristion	4,800
Fferm a Thyddyn	1,500
Golwg	73,000
Lingo Newydd	18,000
Llafar Gwlad	7,000
Mellten	14,000
O'r Pedwar Gwynt	25,000 *
Wcw	30,000
Y Cymro	18,000
Y Selar	11,000
Y Traethodydd	6,000
Y Wawr	10,000
Marchnata	9,450
	357,750

* yn cynnwys un taliad ar gyfer chwarter cyntaf 2017/18 / includes one payment for the first quarter of 2017/18



Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)

Mewn marchnad sy'n cael ei dominyddu gan gwmnïau mawr Eingl-Americanaidd, mae rhoi cefnogaeth i gyhoeddiadau Saesneg o Gymru yn hanfodol er mwyn sicrhau ystod o lyfrau a chylchgronau sy'n adlewyrchu diwylliant nodedig Cymru. Mae'r cyllid hwn yn darparu ar gyfer darllenwyr yng Nghymru ddeunyddiau sy'n berthnasol iddynt hwy, ac yn annog sector sy'n edrych tuag allan ac yn cyflwyno diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol. Yn 2016/17 dosbarthwyd grantiau i 21 o gyhoeddwr neu wasgnodau ledled Cymru, gan gefnogi 103 llyfr ac 8 cylchgrawn yn Saesneg.

Hyrwyddo creadigedd Mae'r ystod o gynlluniau grant sydd ar gael yn helpu i sicrhau amrywiaeth o deitlau ar gyfer darllenwyr yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol yn ariannu teitlau o werth llenyddol a diwylliannol na ellid eu cyhoeddi heb gefnogaeth o'r fath ac, mewn sawl achos, maent yn galluogi egin-awduron i weld eu gwaith mewn print. Yn 2016/17 roedd y rhai a dderbyniodd grantiau dan y cynllun hwn yn cynnwys Cinnamon Press a Gwasg Prifysgol Cymru. Yn yr un modd, defnyddiwyd y grantiau ar gyfer cylchgronau bychain i helpu i gefnogi *Scintilla* ac *Envoi*, ac un llais newydd, ffres, sef *The Ghasling*.

Hybu'r sector mewn partneriaeth Ym mis Hydref 2016 trefnodd y Cyngor Llyfrau gyfres o gyfarfodydd rhwng *The Bookseller*, prif gyhoeddiad y fasnach yn y Deyrnas Gyfunol, a chyhoeddwr llyfrau o Gymru. *The Bookseller*, a gyhoeddir yn wythnosol, yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer cyhoeddwr, adwerthwyr, asiantau, llyfrgelloedd, y cyfryngau cenedlaethol a gwylliau llenyddol. Rhoddwyd cyfle i gyhoeddwr dynnu sylw at deitlau sydd ganddynt ar y gweill, a chyflwyno hanesion unigryw am eu cwmni. Arweiniodd hyn at gyhoeddi rhifyn arbennig ym mis Mai 2017, yn canolbwyntio ar y sector yng Nghymru.

Publishing Grants (English)

In a market that is dominated by large Anglo-American companies, support for English-language publications is essential in order to ensure a range of books and magazines that reflect the distinctive culture of Wales. This funding provides readers in Wales with materials that are relevant to them and encourages an outward-looking sector which presents the culture of Wales on an international level. In 2016/17 grants funded 21 publishers or imprints across Wales, supporting 103 books and 8 magazines in English.

Creating opportunities for creativity The range of grant schemes helps to ensure variety for readers in Wales and beyond. Our Individual Literary Book Grants fund books of strong literary and cultural value that could not be published without such support and, in many cases, enable work by emerging writers to be published. In 2016/17 recipients of grants under this scheme included Cinnamon Press and the University of Wales Press. Similarly, grants for small magazines helped to support *Scintilla*, *Envoi* and fresh new voice, *The Ghasling*.

Promoting the sector in partnership In October 2016 the Books Council organised a series of meetings between leading UK trade publication *The Bookseller* and book publishers from Wales. Published weekly, *The Bookseller* is a primary source of information for publishers, retailers, agents, libraries, national media and festivals. Publishers were given the opportunity to pitch forthcoming titles and to present the unique stories of their company. This resulted in a special issue focusing on the sector in Wales, which was published in May 2017.

Arloesi digidol Mae'r sector cyhoeddi wedi cofleidio'r cyfleoedd a ddarperir gan ddatblygiadau technolegol, o gynhyrchu e-lyfrau i gyrraedd darllenwyr trwy farchnata digidol. Efallai, fodd bynnag, mai'r maes y mae angen iddo addasu gyflymaf yw cyhoeddi cylchgronau. Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n darparu arian craidd ar gyfer *Wales Arts Review*, *Click on Wales* a *The Welsh Agenda*, *Poetry Wales*, *Planet* a *New Welsh Review*. Yn 2016/17 cynigiwyd hyfforddiant i gyhoeddwr cylchgronau mewn dau faes, sef sut i gynyddu tanysgrifiadau digidol, a marchnata digidol, i sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol yn y byd sydd ohoni.

Blaendaliadau awduron Mae'r cynllun hwn yn galluogi cyhoeddwr i gomisiynu awduron i ysgrifennu llyfrau a chanddynt apêl eang, neu i lenwi bwlch yn y farchnad. Caiff unrhyw elw o deitlau o'r fath ei ailfuddsoddi yn y rhestr gyhoeddi, gan helpu i gefnogi teitlau eraill a chryfhau isadeiledd cwmnïau bach. Eleni, darparwyd blaendaliadau i awduron adnabyddus megis Jim Perrin a Mike Parker, yn ogystal â ffigurau poblogaidd megis Jonathan Davies a Iolo Williams, ac roedd 40% o'r teitlau a gefnogwyd yn rhai ar gyfer plant ac oedolion ifanc.

Gwella amlygrwydd Mae buddsoddi mewn marchnata'n hollbwsysig er mwyn sicrhau bod llyfrau o Gymru'n cyrraedd y darllenwyr, yn enwedig mewn marchnad mor gystadleuol. Roedd y llyfrau a fanteisiodd ar grantiau marchnata yn 2016/17 yn cynnwys *The Black Path* gan Paul Burston (Accent Press), *The Quiet Music of Gently Falling Snow* gan Jackie Morris (Graffeg), *Aberfan* gan Gaynor Madgwick a Greg Lewis (Y Lolfa), *Pigeon* gan Alys Conran (Parthian), *The Vegetarian Tigers of Paradise* gan Crystal Jeans (Honno), a *Wild Places* gan Iolo Williams (Seren).

Digital innovation The publishing sector has embraced the opportunities provided by advances in technology, from producing e-books to reaching readers via digital marketing. Perhaps the area of publishing that must adapt most rapidly, however, is magazine publishing. The Welsh Books Council provides core funding for *Wales Arts Review*, *Click on Wales* and *The Welsh Agenda*, *Poetry Wales*, *Planet* and *New Welsh Review*. In 2016/17 magazine publishers were offered training in increasing digital subscriptions and digital marketing in order to keep abreast of the evolving scene.

Advances for authors This scheme enables publishers to commission authors to write books of wide appeal or to fill a gap in the market. Profit from such titles is reinvested into the publishing list, helping to support other titles and to strengthen the infrastructure of small companies. This year, advances were provided to established voices such as Jim Perrin and Mike Parker as well as popular figures such as Jonathan Davies and Iolo Williams, while 40% of the titles supported were for children and young adults.

Increasing visibility Investing in marketing is vital in ensuring that books from Wales reach readers, especially in such a competitive market. Books that benefited from marketing grants in 2016/17 included *The Black Path* by Paul Burston (Accent Press), *The Quiet Music of Gently Falling Snow* by Jackie Morris (Graffeg), *Aberfan* by Gaynor Madgwick and Greg Lewis (Y Lolfa), *Pigeon* by Alys Conran (Parthian), *The Vegetarian Tigers of Paradise* by Crystal Jeans (Honno), and *Wild Places* by Iolo Williams (Seren).

Tabl 5 Crynodeb o Wariant y Grantiau Cyhoeddi Saesneg 2016/17

Table 5 Summary of English-language Publishing Grants Expenditure 2016/17

Grant Llenyddiaeth Saesneg / English Literature Grant		£
Cyfnodolion Diwylliannol / Cultural Periodicals		173,609.48
Cyhoeddwr Llyfrau Refeniw / Revenue Book Publishers		248,798.67
Grantiau Unigol / Individual Grants		52,450.00*
Comisiynau / Commissions		0.00
Cylchgronau Bach / Small Magazines		2,600.00
Hyfforddiant / Training		292.50
		477,750.65

*yn cynnwys £2,000 wedi ei drosglwyddo o'r Grant Llyfrau Plant / includes £2,000 transferred from Children's Book Grant

Arian Ychwanegol ar gyfer Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru / Additional Funding for Welsh Writing in English

Marchnata / Marketing	43,940.00
Penodiadau / Appointments	69,430.00
Blaendal i Awduron / Author Advance	42,000.00
Clasuron / Classics	37,201.77
	192,571.77

Cyfanswm Grant Saesneg / Total English-language Grant **670,322.42**

Tabl 6 Grant Llenyddiaeth Saesneg – Llyfrau a Chyfnodolion Diwylliannol 2016/17

Table 6 English-language Literature Grant – Books and Cultural Periodicals 2016/17

		Rhifynnau / Issues*	Grant £
Cyfnodolion Diwylliannol /	Planet**	4	51,900.00
Cultural Periodicals	New Welsh Review	11	50,000.00
	Poetry Wales	3	25,000.00
	The Welsh Agenda & Click on Wales***	2	25,000.00
	Wales Arts Review	24	20,000.00
	Hyfforddiant / Training		1,709.48
		44	173,609.48

* Noder bod nifer y rhifynnau yn seiliedig ar y nifer o rifynnau sydd â chynnwys gwahanol, boed mewn print neu ar-lein / Please note that the number of issues is based on the number of issues with differentiated content, whether in print or online ** yn cynnwys taliad cynnar o £1,900 o grant 2017/18 / includes an early payment of £1,900 from the 2017/18 grant *** 2 rifyn print o The Welsh Agenda a chynnwys ar-lein rheolaidd ar Click on Wales / 2 print issues of The Welsh Agenda plus regular on-line content on Click on Wales

		Teitlau / Titles	
Cyhoeddwr Llyfrau Refeniw /	Gwasg Gomer +	9	56,559.00
Revenue Book Publishers	Seren ++	20	70,277.00
	Parthian +++	12	62,598.00
	Honno +++	7	53,362.00
	Firefly Press +*		5,500.00
	Costau Tendrau / Tender Costs		502.67
		48	248,798.67
Grantiau Unigol /	Agenda Editions	1	1,800
Individual Grants	Cinnamon Press	9	17,400
	Firefly Press +**	3	5,500
	Gwasg Carreg Gwalch	5	8,700
	Gwasg Prifysgol Cymru / University of Wales Press	2	4,250
	Y Lolfa	6	14,800
		26	52,450

+ 4 taliad chwarterol ar lefel is oherwydd gostyngiad yn nifer y llyfrau a gyhoeddwyd a thaliad ar gyfer chwarter cyntaf 2017/18 / 4 quarterly payments at reduced level due to a reduction in the number of books published plus payment of the first quarter of 2017/18 ++ 3 taliad chwarterol (taliad chwarter cyntaf 2016/17 yn 2015/16) / 3 quarterly payments (the first quarter of 2016/17 was paid in 2015/16) +++ yn cynnwys 5 taliad chwarterol / includes 5 quarterly payments +* Taliad chwarter cyntaf 2017/18 / Payment of first quarter of 2017/18 +** yn cynnwys £2,000 wedi ei drosglwyddo o'r Grant Llyfrau Plant / includes £2,000 transferred from Children's Book Grant

Tabl 7 Cynllun Blaendal Awduron Saesneg

Table 7 Author Advance Scheme for English-language Writers

Llyfrau a gyhoeddwyd 2016/17 / Books published 2016/17

Cyhoeddwr / Publisher	Teitl / Title	Awdur / Author
Firefly Press	The Territory 2: The Escape	Sarah Govett
Firefly Press	The Martian Girl	Paul Magrs
Firefly Press	Dragon Red	Shoo Rayner
Firefly Press	Sophie Finds a Fairy Door	Laura Sheldon & Erica Jane Waters
Graffeg	50 Buildings that Built Wales	Mark Baker, Greg Stevenson & David Wilson
Graffeg	The Lost Lines of Wales Series	Tom Ferris
Graffeg	The Word Bird	Nicola Davies
Graffeg	Perfect	Nicola Davies
Gwasg Gomer	The Hills of Wales	Jim Perrin
Gwasg Gomer	The Greatest Lions XV Ever	Jonathan Davies & Alun Wyn Bevan
Parthian	Stand Up and Sock it to Them Sister	Gwenno Dafydd
Seren	Wild Places: Wales' Top 40 Nature Sites	Iolo Williams
Y Lolfa	Aberfan: A Story of Survival, Love and Community	Gaynor Madgwick & Greg Lewis
Y Lolfa	The Greasy Poll	Mike Parker
Y Lolfa	Where Dragons Dare to Dream	Jamie Thomas



Cefnogi'r isadeiledd

Mae isadeiledd cryf yn hanfodol ar gyfer diwydiant cyhoeddi ffyniannus. Yn hydref 2016, rhoddwyd dau gynllun grant sy'n helpu i gyflawni hyn allan i dendr. Mae'r Cynllun Cyhoeddwy'r Refeniw yn cefnogi rhaglen gyhoeddi flynyddol, gan gynnwys cyfraniad at gostau cyffredinol prif gyhoeddwy'r y teitlau llenyddol a diwylliannol yng Nghymru. Dyfarnwyd trefniant ariannu tair blynedd am y cyfnod 2017/18 – 2019/20 i Parthian, Seren, Honno, Gomer ac, am y tro cyntaf erioed, i Firefly Press.

Yn y cyfamser, roedd buddsoddiad ychwanegol yn y cynllun Swyddi a Gefnogir eleni yn golygu bod modd ariannu tair swydd newydd mewn dau gwmni. Ariennir un ar ddeg o swyddi golygyddol a marchnata am y cyfnod 2017/18 – 2019/20 yn y Lolfa, Gwasg Carreg Gwalch, Parthian, Honno, Seren a Gomer, ac mewn dau gwmni sy'n newydd i'r cynllun, sef Firefly Press a Graffeg. Mae'r tair swydd newydd mewn cwmnïau sy'n datblygu'r ystod o lyfrau ar gyfer plant ac oedolion ifanc o Gymru, ac mae hynny'n newyddion gwych i'r maes heriol hwn o'r sector.

Y Lolfa

PARTHIAN



Carreg
Gwalch 

Supporting the infrastructure

A strong infrastructure is essential for a thriving publishing industry. In the autumn of 2016 two key grants that help to achieve this were put to tender. The Revenue Publishers scheme supports an annual publishing programme including a contribution to overheads for the main publishers of literary and cultural titles in Wales. Three-year funding for the period 2017/18 – 2019/20 was awarded to Parthian, Seren, Honno, Gomer and brand new recipient, Firefly Press.

Meanwhile, extra investment in the Supported Posts scheme this year meant that three new posts could be funded at two companies. Eleven editorial and marketing posts for the period 2017/18 – 2019/20 will be funded at Y Lolfa, Gwasg Carreg Gwalch, Parthian, Honno, Seren, Gomer, and at two companies that are new to the scheme, Firefly Press and Graffeg. The three new posts are at companies that are developing the range of books for children and young adults from Wales, which is excellent news for this challenging area of the sector.

SEREN



GRAFFEG

 honno

Golygu a Dylunio

Editing and Design

MAE'R ADRAN OLYGYDDOL a'r Adran Ddylunio yn cynnig gwasanaeth arbenigol i gyhoeddwr Cymru ac yn ymdrin hefyd â deunyddiau'r Cyngor ei hun, yn gatalogau a thaflenni hyrwyddo, adroddiadau a datganiadau i'r wasg, a dogfennau mewnol o bob math. Roedd y gwaith mewnol eleni yn cynnwys cyfieithu a mireinio gwefan newydd Gwales/Siop. Gan fod y Cyngor yn noddi swyddi golygyddion comisiynu neu olygyddion creadigol yn y tai cyhoeddi unigol, mae'r Adran Olygyddol yn canolbwyntio ar y gwaith golygu copi a phrawfddarllen, dwy elfen hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn ddarllenadwy ac yn gywir.






Mae'r Adran Ddylunio'n cynnig gwasanaeth dylunio cloriau, a hefyd yn cynorthwyo'r cyhoeddwr drwy ddylunio rhai llyfrau o glawr i glawr. Cynnal safonau a gwella ansawdd y deunyddiau a gyhoeddir yng Nghymru yw nod y ddwy adran, ac mae gweithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan y cyhoeddwr eu hunain yn elfen hollbwysig o'u gwaith.

Mynychwyd rhai o'r dyddiau hyfforddi a drefnwyd gan yr Adran Grantiau Cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Gan y bydd i'r Adran Olygyddol ran ganolog yn y cynllun a oruchwylir ar y cyd gan y Cyngor Llyfrau a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd i gyhoeddi 20 o lyfrau ar gyfer dysgwyr ar wahanol lefelau, mynychwyd y cyflwyniad i'r tendr llyfrau dysgwyr ym mis Ebrill eleni, yn ogystal â'r diwrnod hyfforddiant cyntaf ar gyfer golygyddion ac awduron y cynllun, a gynhaliwyd yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf.

THE EDITORIAL DEPARTMENT and the Design Department offer a specialist service to the publishers of Wales and deal also with the Council's own publications, such as catalogues and promotional leaflets, reports and press releases, and a variety of internal documents. The internal work this year included translating and refining the new Gwales/Shop website. As the Council supports the posts of commissioning editors or creative editors in the individual publishing houses, the Editorial Department focuses on copy editing and proofreading – two essential elements in the process of ensuring that the final copy is both readable and accurate.

The Design Department offers a cover design service, and it also assists publishers by designing some books from cover to cover. The main aim of both departments is to raise standards and improve the quality of the material published in Wales, and working in partnership with those employed by the publishers themselves is a vital element of their work.

The Departments attended some of the training days arranged during the year by the Publishing Grants Department. As the Editorial Department will have a central role to play in the scheme jointly supervised by the Books Council and the new National Centre for Learning Welsh to publish 20 books for Welsh learners at various levels, staff attended the presentation of the tender for the books held in April this year, together with the first training day for the editors and authors of the scheme held at the Old Library, Cardiff, in July.



Gwasanaeth i gyhoeddwr ac awduron


Yn ystod y flwyddyn ymdriniodd yr Adran Olygyddol â 147 o deipysgrifau gan 15 o gyhoeddwr. Rhoddwyd gwasanaeth dylunio gan yr Adran Ddylunio i 105 o deitlau gan 11 cyhoeddwr.

Cynnyrch y flwyddyn Eleni eto daeth amrywiaeth eang o deipysgrifau drwy'r Adran Olygyddol: addasiadau o lyfrau bwrdd lliwgar i'r plant ieuengaf, llyfrau ffeithiol a nofelau i blant ac ieuencid, yn ogystal â chyfrolau o farddoniaeth, nofelau a deunydd cofiannol i oedolion. Cafwyd cyfle i weithio ar nofelau buddugol Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016, sef *Ymbelydredd* gan Guto Dafydd, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen, a nofel gyntaf Eurig Salisbury, *Cai*, a enillodd y Fedal Ryddiaith. Ac unwaith eto, bu'n bleser cydweithio â'r Lolfa ac Accent Press ar gynllun Stori Sydyn/Quick Reads, a hefyd â'r Urdd ar gyfrol cyfansoddiadau llenyddol buddugol Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr. Amrywiai'r llyfrau i oedolion o gyhoeddiadau ysgafn, poblogaidd fel llyfrau coginio neu *Llyfr Bach Paris*, gan yr awdur newydd Lara Catrin, i destunau mwy academiaidd fel cofiant llenyddol Alan Llwyd i Gwenallt neu gyfrol ddiweddaraf *Ysgrifau Beirniadol*, a chafwyd sawl cyhoeddiad a oedd yn gysylltiedig â choffâu Hedd

Services to publishers and authors

During the year the Editorial Department dealt with 147 typescripts for 15 publishers. The Design Department provided a design service in respect of 105 titles by 11 publishers.

The year's output Again this year, the Editorial Department worked on a wide variety of typescripts: adaptations of colourful board books for very young children, factual books and novels for children and young adults, together with volumes of poetry, novels and biographical works for adults. There was an opportunity to work on the novels that won the major awards at the 2016 National Eisteddfod held at Abergavenny, namely *Ymbelydredd* by Guto Dafydd, the winner of the Daniel Owen Memorial Award, and *Cai*, Eurig Salisbury's first novel, that won the Prose Medal. It was a pleasure, once again, to work with Y Lolfa and Accent Press on the Quick Reads/Stori Sydyn scheme, and with the Urdd on the volume of prize-winning literary compositions at the National Urdd Eisteddfod held at Bridgend. The books for adults varied from popular texts offering light reading, such as cookery books and *Llyfr Bach Paris* by the new author Lara Catrin, to more academic texts such as Alan Llwyd's literary biography of Gwenallt, or the latest



Wyn a'r Rhyfel Mawr. Cafwyd dwy ddrama i'w golygu eleni hefyd: argraffiad newydd gan Wasg Gee o *Blodeuwedd* Saunders Lewis, a chyfieithiad disglair y diweddar Gwyn Thomas o *Macbeth*, a gyhoeddwyd i gyd-fynd â thaith y Theatr Genedlaethol.

Ym maes llyfrau plant a'r arddegau, golygwyd enillydd categori uwchradd Gwobrau Tir na n-Og 2017, sef y nofel i'r arddegau, *Pluen*, gan Manon Steffan Ros. Afraid dweud bod bwlch mawr i'w lenwi yn y byd llenyddol ar ôl Gareth F. Williams, fel sydd yn dilyn marwolaeth ddiweddar Tony Bianchi. Ond calondid oedd cael gweithio ar lyfrau gwreiddiol ac addasiadau creadigol o waith awduron poblogaidd fel David Walliams gan nifer o awduron newydd. Un o'n hawduron mwyaf profiadol yw Siân Lewis, a'i chyfrolau hi, *Stori'r Brenin Arthur* a *The Story of King Arthur*, a gyhoeddwyd eleni, yw'r rhai olaf i Gordon Jones fod ynghlwm â nhw fel golygydd creadigol. Mae ei gyfraniad tawel yntau i'r byd cyhoeddi dros flynyddoedd lawer yn un nodedig; bu'n bleser cydweithio ag ef.

Bu swmp ac amrywiaeth y gwaith yn sylweddol, ac rydym yn ddyledus eto eleni i dîm bychan o olygyddion allanol profiadol am eu cymorth gwerthfawr, yn enwedig ar adegau prysuraf y flwyddyn.

Adolygiadau Yr Adran Olygyddol sy'n gyfrifol am gomisiynu a phrosesu'r adolygiadau o lyfrau Cymraeg a Saesneg a welir ar wefan Gwales. Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd 183 o adolygiadau newydd i'r wefan, ac rydym yn ddiolchgar unwaith eto i'r sawl sy'n trefnu'r adolygiadau am eu cydweithrediad. Rhoddodd Sarah Down-Roberts y gorau i'w rôl fel trefnydd yr adolygiadau Cymraeg, a chymerwyd ei lle gan Gwenllïan Dafydd, sydd wedi ymgymryd â'r gwaith yn y gorffennol.

volume in the *Ysgrifau Beirniadol* series; in addition, there were several titles published to commemorate the poet Hedd Wyn and the Great War. We also edited two plays this year: a new edition by Gwasg Gee of *Blodeuwedd* by Saunders Lewis, and a brilliant translation by the late Gwyn Thomas of *Macbeth*, published to coincide with the tour of the play by Theatr Genedlaethol Cymru.

As regards books for children and young adults, the Department edited the prize-winning title in the secondary category of the 2017 Tir na n-Og Awards – *Pluen*, a novel for young adults by Manon Steffan Ros. The death of Gareth F. Williams and, more recently, of Tony Bianchi, leave a tremendous void in the literary world. But it was heartening to work on original titles and creative adaptations by a number of new writers of the work of popular authors such as David Walliams. Siân Lewis is one of our most experienced authors, and her titles – *Stori'r Brenin Arthur* and *The Story of King Arthur*, published this year – are the last ones for Gordon Jones to be associated with as creative editor. His unassuming contribution to the field of publishing over many years has been remarkable, and it has been a pleasure to work with him.

The volume and variety of the year's work has been substantial, and we are once more indebted to a small team of experienced freelance editors for their invaluable assistance, especially at the busiest times of the year.

Reviews The Editorial Department is responsible for commissioning and processing the reviews of English- and Welsh-language titles that appear on the Gwales website. During the year 183 new reviews were added to the website, and we are grateful once again to the review editors for their co-operation. Sarah Down-Roberts stepped down from her role as organiser of the Welsh-language reviews, and was replaced by Gwenllïan Dafydd who has undertaken the work in the past.

Hyblyg a hwylus

Er mai ffuglen fu prif faes gwaith yr Adran Ddylunio dros y blynyddoedd, mae'r mathau o lyfrau rydym yn ymdrin â hwy yn fwyfwy amrywiol. Eleni eto, ymdriniwyd â llyfrau gwreiddiol ac addasiadau ar gyfer y darllenwyr iau, ac yn sgil Pencampwriaeth Ewrop cafwyd nifer o deitlau'n gysylltiedig â phêl-droed, yn cynnwys *Allez Cymru* gan Gary Pritchard a *Don't Take Me Home* gan Bryn Law.

Mewn cyferbyniad â'r rhain, buom yn ymdrin â theitlau megis *The Hills of Wales* gan Jim Perrin. Ymhlith y cofiannau eleni, roeddem yn gyfrifol am becynnu clawr *Nerves of Steele* gan Phil Steele ac Anthony Bunko, a chofiant i'r bardd Gwenallt gan Alan Llwyd. Gweithiwyd yn ogystal ar nifer o deitlau newydd ym maes barddoniaeth a cherddoriaeth, sydd bob amser yn hawlio ymdriniaeth ofalus i adlewyrchu'r cynnwys. Yn eu plith roedd *Hel Hadau Gwawn* gan Annes Glynn, *Caeth a Rhydd* gan Peredur Lynch, a *Rhywbeth i'w Ddweud*, casgliad o ysgrifau sy'n trafod caneuon gwleidyddol cyfoes.

Ym maes hanes, cawsom deitlau'n ymwneud â'r cyfnod canoloesol yn ogystal â chyfrolau'n nodi canmlwyddiant y Rhyfel Mawr, megis *Mametz* gan Alun Cob ac *O Ben Cilan i Bombay* gan Harri Parri. Ac, yn ôl yr arfer, cafwyd nifer dda o nofelau eleni; ymhlith y teitlau nodedig y darparwyd cloriau ar eu cyfer roedd y nofelau arobryn *Ymbelydredd* gan Guto Dafydd, a *Cai* gan Eurig Salisbury.

Mae gallu'r Adran Ddylunio i ymdrin â'r gwahanol anghenion o ran pecynnu llyfrau yn un o'i phrif fanteision o safbwynt y cyhoeddwr, ac mae'r teitlau a restrir yma'n dangos hyblygrwydd yr Adran yn wyneb llif deinamig o waith.


Strength and flexibility

Although fictional titles have been the main thrust of the Design Department's work over the years, the types of books we deal with have become more varied over time. This year, we dealt once more with a number of original Welsh-language books and adaptations for younger readers, and following last summer's European Championships there were also a few football-related titles, including *Allez Cymru* by Gary Pritchard and *Don't Take Me Home* by Bryn Law.

In contrast to these, we dealt with titles such as Jim Perrin's *The Hills of Wales*. Among the year's biographical publications, we packaged the cover for *Nerves of Steele* by Phil Steele and Anthony Bunko and the biography of the poet Gwenallt by Alan Llwyd. We also worked on a number of new poetry and musical titles, which always require delicate treatment to mirror the content. Among them were *Hel Hadau Gwawn* by Annes Glynn, *Caeth a Rhydd* by Peredur Lynch, and *Rhywbeth i'w Ddweud*, a collection of essays discussing modern political songs.

Historical volumes included works on medieval history as well as titles relating to the centenary of the Great War, such as *Mametz* by Alun Cob and *O Ben Cilan i Bombay* by Harri Parri. And as always, we received a good number of novels; some notable titles requiring covers were the prize-winning novels *Ymbelydredd* by Guto Dafydd and *Cai* by Eurig Salisbury.

The ability of the Design Department to deal with the varied packaging needs of books is one of its main advantages for publishers, and the titles listed here display the Department's flexibility when faced with a dynamic flow of work.





The Old Red Tongue

An Anthology of Welsh Literature

Edited by Gwyn Griffiths and Meic Stephens

The Old Red Tongue

An Anthology of Welsh Literature

Edited by Gwyn Griffiths and Meic Stephens

The Old Red Tongue

An Anthology of Welsh Literature

Edited by Gwyn Griffiths and Meic Stephens

Gwerthu a Marchnata a Gwybodaeth Sales and Marketing and Information

YN YSTOD y flwyddyn ariannol ddiwethaf gwelwyd newidiadau mewn adrannau unigol, gyda Gwasanaethau Gwybodaeth yn dod yn rhan o'r Adran Gwerthu a Marchnata, a'r holl staff swyddfa'n gweithio o'r Ganolfan Ddosbarthu. Nod yr Adran yn y pen draw yw sicrhau bod gwerthiant pob un teitl yn cael ei hyrwyddo i'r eithaf; mae hyn yn galw am lif gwaith mwy effeithol drwy ledaenu gwybodaeth i bob sector o'r fasnach lyfrau – nid o fewn Cymru'n unig, ond hefyd yr ochr draw i'r ffin. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod gwerthu llyfrau yng Nghymru'n parhau i fod yn faes heriol.

Gwerthu a marchnata Mae'r wefan Gwales/ Siop, a ddefnyddir gan y llyfrwerthwyr, bellach wedi cael ei datblygu ymhellach er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio. Mae'n cynnwys modd o ganiatáu dulliau mwy hygrych o bori, yn galluogi chwiliadau allgludo ac, yn y pen draw, bydd yn cynnig dull rhwyddach o osod archebion. Mae gan y llyfrwerthwyr well mynediad at eu cyfrif masnachol personol eu hunain, gan ganiatáu i ragor o wybodaeth gael ei rhannu â deiliad pob cyfrif unigol.

Mae llyfrwerthwyr annibynnol yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan yr Adran drwy gyfrwng y Cynllun Ymestyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol Ebrill 2016 i Fawrth 2017, defnyddiwyd arian y cynllun i gefnogi 335 o ddigwyddiadau lle gwerthwyd llyfrau gwerth cyfanswm o £140,383. Rhoddir cymorth i lyfrwerthwyr annibynnol yn ogystal, yn seiliedig ar eu trosiant yn

THE PAST financial year saw changes in individual departments which saw Information Services become part of the Sales and Marketing Department, with all of the office-based staff working from the Distribution Centre. The ultimate aim of the Department is to ensure that the sales of every single title are maximised and this requires a more efficient workflow through the dissemination of information to all sectors of the book trade, not just within Wales but also beyond its borders. This is especially important as bookselling in Wales continues to be a challenge.

Sales and marketing The Gwales/Shop website which is used by the booksellers has been further developed so that it is more user-friendly. It includes tools such as much more accessible browsing and allows for export searches and ultimately for orders to be placed more easily. Booksellers have increased access to their own personal trade account which allows for a greater amount of information to be shared with each individual account holder.

Independent booksellers continue to be supported by the Department through the Outreach scheme. During the financial year of April 2016 to March 2017, funding from the Outreach scheme supported 335 events at which books to the value of £140,383 were sold. Support is also given to individual booksellers based on the turnover of the individual independent bookshops at the Distribution Centre. In 2016/2017 the sum of £25,976 was distributed between 16 bookshops.

y Ganolfan Ddosbarthu. Yn 2016/17 dosbarthwyd cyfanswm o £25,976 rhwng 16 o siopau llyfrau.

Mae'r digwyddiadau a drefnir gan yr Adran bellach wedi esblygu'n rhaglen sy'n rhychwantu'r flwyddyn gyfan. Yn ystod y chwarter ariannol rhwng Medi a Rhagfyr, trefnwyd tua 150 o ddigwyddiadau'n cwmpasu'r sbectrwm cyfan o lyfrau i oedolion a phlant yn Gymraeg a Saesneg, a hynny gydag ystod eang o awduron megis Dai Jones Llanilar, Jonathan Davies, Gillian Clarke, Lucy Owen a Meleri Wyn James.

Ac ni chyfyngwyd y digwyddiadau i'r chwarter hwn yn unig. Ym mis Ebrill, gwelwyd Galeri yng Nghaernarfon yn croesawu'r Fedwen Lyfrau a drefnir gan Gwlwm Cyhoeddwy'r Cymru, y consortiwm o gyhoeddwy'r Cymraeg, a chydweithiodd yr Adran â'r trefnwyr ac â Palas Print, y siop lyfrau leol. Yn Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint, Siop Lyfrau Lewis oedd y llyfrwerthwyr lleol, ac yn yr un wythnos roedd llyfrau o Gymru'n hawlio lle teilwng yng Ngŵyl y Gelli. Yr Adran hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu stondin y Cyngor Llyfrau yn y Sioe Amaethyddol ac yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau. Trefnwyd rhaglen gynhwysfawr a llwyddiannus yn y ddau ddigwyddiad.

Unwaith eto eleni, buom yn cydweithio'n agos â Llenyddiaeth Cymru i sicrhau bod teitlau Llyfr y Flwyddyn yn cael lle amlwg mewn siopau llyfrau ledled Cymru. Cymerodd tua 50 o siopau llyfrau ran yn y cynllun, ac uchafbwynt y digwyddiad oedd cyhoeddi enwau'r enillwyr yn y Redhouse, Merthyr Tudful; Siop y Bont oedd y llyfrwerthwyr ar y noson.

I gefnogi ymhellach y gwaith o hybu a gwerthu llyfrau o Gymru, cynhyrchodd yr Adran gatalogau o lyfrau'r haf a'r Nadolig, sef *Llyfrau'r Haf*, *Summer Reads*, *Gwledd y Nadolig* a *Festive Reads*. Caiff y catalogau hyn eu dosbarthu'n eang drwy rwydwaith y papurau bro a phapurau newydd y *Western Mail* a'r *Daily Post*, ac anfonir copïau at lyfrwerthwyr, cyhoeddwy'r, ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru.

Mae'r gwahanol gynlluniau llyfr y mis, sy'n hyrwyddo llyfrau i oedolion yn Gymraeg a Saesneg – ynghyd â'r cynllun dwyieithog Llyfr y Mis i Blant/Children's Book of the Month – yn parhau'n boblogaidd gyda'r llyfrwerthwyr. Cynhyrchir deunydd hyrwyddo, ar ffurf posteri, yn fisol er mwyn cael cymaint o gyhoeddusrwydd ag y bo modd, a chaiff penodau agoriadol y llyfrau a ddewisir eu cylchredeg yn electronig ymhlith y llyfrwerthwyr.

Cyfanswm yr e-lyfrau sydd ar werth ar wefan Gwales yw 1,619, gyda 353 ohonynt yn deitlau Cymraeg. Mae'r system a fabwysiadwyd i ddarparu e-lyfrau yn caniatáu

The events programme which is organised by the Department has evolved into an all-year-round programme. During the financial quarter of September to December about 150 events were organised which covered the entire spectrum of adults' and children's books in both Welsh and English, with a wide range of authors such as Dai Jones Llanilar, Jonathan Davies, Gillian Clarke, Lucy Owen and Meleri Wyn James.

Events were not confined to this quarter. April saw Galeri at Caernarfon hosting the Bedwen Lyfrau which is organised by the consortium of Welsh-language publishers Cwlwm Cyhoeddwy'r Cymru, and the Department worked in conjunction with the organisers and the local bookshop Palas Print. At the Urdd Eisteddfod in Flint, Siop Lyfrau Lewis were the local booksellers, while during the same week books from Wales had a visible presence at the Hay Festival. The Department was also responsible for organising the Books Council's stand at the Royal Welsh Show and at the National Eisteddfod in Monmouthshire. An extensive and successful programme was arranged at both events.

We again worked closely with Literature Wales in order to ensure that the Wales Book of the Year titles were displayed prominently in bookshops throughout Wales. Around 50 bookshops took part in this scheme and the event culminated with the winners being announced at the Redhouse in Merthyr Tydfil; Siop y Bont were the booksellers on the evening.

To further support the promotion and sales of books from Wales, the Department produced the summer and Christmas catalogues *Llyfrau'r Haf*, *Summer Reads*, *Gwledd y Nadolig* and *Festive Reads*. These catalogues are distributed widely through the network of *papurau bro* (community newspapers) and the *Western Mail* and *Daily Post* newspapers, and copies are sent to booksellers, publishers, schools and libraries throughout Wales.

The various book of the month schemes which individually promote adult books in Welsh and English, along with the bilingual Llyfr y Mis i Blant/Children's Book of the Month, continue to prove popular with the booksellers. Promotional material, in the form of posters, is produced each month in order to help maximise publicity, and the opening chapters of the chosen books are electronically circulated to the booksellers.

The number of e-books for sale on the Gwales website is 1,619, of which 353 are Welsh-language titles. The system adopted to provide e-books allows



Mared Lewis yn llofnodi copïau o'i llyfr ar stondin y Cyngor Llyfrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol
Mared Lewis signing copies of her book at the Books Council stand at the National Eisteddfod

i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru eu cynnig i fenthycwyr. Mae 64 o Apiau Cymraeg a 24 o Apiau Saesneg ar gael ar declynnau Android ac Apple, ac mae 23 ar gael fel Apiau gwe ar Gwales.com.

Yr Adran oedd yn gyfrifol hefyd am drefnu'r sêl llyfrau plant a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth. Gwerthwyd dros 4,000 o lyfrau o ganlyniad i'r cynllun hyrwyddo hwn, a than y cynllun tocynnau llyfrau gwerthwyd tocynnau gwerth tua £29,750 yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, rydym yn gyfrifol am reoli tua 130 o droellwyr mewn lleoliadau drwy Gymru benbaladr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu trefnu ar sail cyflenwad, a'r nod yw helpu i gynyddu gwerthiant mewn mannau lle na fyddai hynny'n digwydd fel arall. I gynorthwyo yn y dasg o gynyddu gwerthiant, caiff pob troellwr ei adolygu'n flynyddol, a chynhelir adolygiad o'r ystod o deitlau sydd ar gael.

Ymddangosodd cyfanswm o 18 teitl yn yr hysbysebion teledu a ddarlledwyd ar S4C yn ystod Tachwedd a Rhagfyr. Dangosodd yr ystadegau gwyllo yng nghyd-destun hysbysebion y Nadolig fod y tair hysbyseb rhyngddynt wedi cael eu dangos 275 o weithiau ac wedi'u gweld gan dros 2,071,993 o wylwyr. Rhoddodd Radio Cymru gefnogaeth i'r Wythnos Siopau Llyfrau, gyda rhaglenni'n cael eu darlledu o siopau

public libraries in Wales to offer them to borrowers. We have 64 Welsh-language and 24 English-language Apps available on Android and Apple devices, and 23 are available as web Apps on Gwales.com.

The Department also organised the children's books sale which ran from January to March. Over 4,000 books were sold as part of this promotion, and under the book voucher scheme a total of approximately £29,750 worth of vouchers were sold during the year. In addition, we are responsible for managing in the region of 130 spinners which are situated throughout Wales. The majority of these are run on a consignment basis, and the aim is to help increase sales in outlets where sales may not be achieved otherwise. In order to help maximise the sales, each spinner has an annual review and a range review of the titles available.

A total of 18 titles featured in the TV adverts which were broadcast on S4C during November and December. The viewing statistics for the Christmas television adverts showed that between the three adverts they were shown 275 times and were seen by over 2,071,993 viewers. Radio Cymru supported the Wythnos Siopau Llyfrau (Bookshop Week), with programmes being transmitted from independent bookshops in Pontyberem, Bridgend, Aberystwyth, Porthmadog and Denbigh.

In January, the Sales and Marketing Department had a presence for the first time in a number of

annibynnol ym Mhontyberem, Pen-y-bont ar Ogwr, Aberystwyth, Porthmadog a Dinbych.

Ym mis Ionawr, roedd gan yr Adran Gwerthu a Marchnata bresenoldeb am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn yn y Ffair Wanwyn a gynhaliwyd yn Llandudno. Roedd hyn yn ein galluogi i gwrdd â chwsmeriaid cyfredol, yn ogystal â meithrin cysylltiad â llyfrwerthwyr newydd. Mae'r Cynadleddau Gwerthu, a gynhelir bellach ym misoedd Ionawr a Mehefin, yn gyfle i'r cyhoeddwy'r drafod teitlau sydd ar y gweill gyda'r holl staff sydd ynghlwm â gwerthu a hyrwyddo llyfrau o Gymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hollbwysig wrth sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu a'i thrafod rhwng pob adran o'r Cyngor Llyfrau a'r cyhoeddwy'r.

Gwybodaeth Mae gwefan Gwales yn elfen ganolog yn y gwaith o sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng llyfrwerthwyr, llyfrgelloedd, ysgolion a'r cyhoedd, ac mae'n cynnwys y rhestr fwyaf cynhwysfawr o lyfrau o Gymru ar y we. Mae manylion dros 30,000 o eitemau yn y gronfa, gyda thros 21,600 ohonynt ar gael i'w harchebu. Yn ogystal â gwybodaeth lyfryddol, cynhwysir bywgraffiadau a lluniau o awduron, tablau cynnwys, gwybodaeth am ddiwyddiadau lansio, a fideos YouTube o weithgareddau hyrwyddo. Mae'r safle hefyd yn cynnwys tua 7,000 o adolygiadau llyfrau.

Mae gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer dilynwyr y safleoedd Twitter a Facebook. Hyd yn hyn, mae dros 1,510 o unigolion wedi 'hoffi' ein tudalen ar Facebook, cynnydd o 19.8% (o'i gymharu â 1,260 yn 2015/16). Mae ein dilynwyr ar Twitter hefyd wedi cynyddu 31.7% i 2,370 yn Gymraeg (o'i gymharu â 1,800 yn 2015/16), a 44.6% i 1,590 yn Saesneg (o'i gymharu â 1,100 yn 2015/16).

Mae'r wefan gorfforaethol Llyfrau.Cymru yn cynnwys gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor, manylion y system grantiau cyhoeddi, manylion cyswllt yr holl staff, archif o adroddiadau blynyddol y Cyngor, dogfennau corfforaethol, adroddiadau ymchwil, ac archif newyddion. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwybodaeth am ymgyrchoedd hyrwyddo'r Cyngor, ac yn galluogi'r cyhoedd i anfon ymholiadau'n electronig at yr adrannau priodol o fewn y Cyngor.

Mae'r Fasnach Lyfrau Ar-lein yn ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr am y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'r wefan hon yn rhestru sefydliadau, cwmnïau ac unigolion hunangyflogedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r byd cyhoeddi yng Nghymru. Mae yno hefyd adran gynghori sy'n cyflwyno gwybodaeth ynghylch hanfodion y byd cyhoeddi.

years at the Wales Spring Fair in Llandudno. This enabled us to meet with existing customers and also to gain access to potential new booksellers. The Sales Conferences, which by now have an established pattern of being held in January and June, are an opportunity for the publishers to discuss forthcoming titles with all the staff who are involved in selling and promoting books from Wales. These meetings provide a vital link in ensuring that all the information is shared and discussed between all the Books Council departments and the publishers.

Information Central to ensuring that information is shared among booksellers, libraries, schools and the general public is the Gwales website, which comprises the most extensive list of books from Wales on the web. Details of more than 30,000 items are held in the database, over 21,600 of which are available to order. In addition to bibliographical information, it contains biographies of authors, contents tables, information about launch events and YouTube videos of promotional activities. The site also has available around 7,000 book reviews.

The social media websites have seen a marked increase in the number of followers of the Twitter and Facebook sites. To date, over 1,510 individuals have 'liked' our page on Facebook, an increase of 19.8% (compared with 1,260 in 2015/16). Our Twitter followers have also increased by 31.7% to 2,370 in Welsh (compared with 1,800 in 2015/16), and by 44.6% to 1,590 in English (compared with 1,100 in 2015/16).

The corporate website Books.Wales contains information about all of the Council's services, details of the publishing grants system, contact details of all members of staff, an archive of the Council's annual reports, corporate documents, research reports and a news archive. It also contains information about the Council's promotional campaigns and enables the general public to send electronic enquiries to the appropriate departments within the Council.

The Welsh Book Trade Info website is a comprehensive source of information about the publishing industry in Wales. It contains directories which list organisations, companies and freelance individuals who provide services relevant to the publishing sector in Wales. There is also an advice section which provides information regarding the essential elements of publishing.

Chwedlau a choffâd

Yn ogystal â'r rhestrau blynyddol o lyfrau'r haf a llyfrau'r Nadolig, cynhyrchwyd hefyd nifer o gatalogau arbennig yn ystod y flwyddyn. I ddathlu Blwyddyn y Chwedlau yn 2017, cynhyrchwyd y catalog *Chwedlau/Myths and Legends*, er mwyn tynnu sylw at y cyfoeth o ddeunyddiau sydd ar gael, o'r Mabinogion ac Owain Glyndŵr i straeon T. Llew Jones a Roald Dahl. Yng ngeiriau Cerys Matthews yn y cyflwyniad: 'Mae'r detholiad hyfryd hwn o lyfrau yn gymysgedd o straeon modern a thraddodiadol i'ch diddanu a'ch difyrru – mae rhywbeth yma i bawb.'

I nodi canmlwyddiant marwolaeth y bardd Hedd Wyn, cyhoeddwyd y catalog dwyieithog *Hedd Wyn a'r Rhyfel Byd Cyntaf/Hedd Wyn and WWI*. Yn ogystal ag amlygu nifer o lyfrau diweddar a ysbrydolwyd gan hanes trist y Gadair Ddu, mae'r catalog yn dwyn ynghyd ystod o gyhoeddiadau, ffeithiol a ffuglen, yn y ddwy iaith, sy'n berthnasol i'r Rhyfel Mawr. Fel y dywed Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, yn ei ragair: 'Bellach, dyw hanes Cymru ddim yn dechrau a diweddu yr ochr yma i Glawdd Offa – os, yn wir, y gwnaeth erioed – ond mae gweld yr hanes hwnnw o ongl Gymreig yn hanfodol.'

Hefyd, mewn cydweithrediad â Waterstones, aethom ati i lunio catalog yn hysbysebu teitlau ar draws yr holl sbectrwm o gyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg i oedolion a phlant, yn ogystal â theitlau dwyieithog. Roedd y teitlau eu hunain, a'r catalog, ar gael ym mhob un o ganghennau Waterstones drwy Gymru.



Legends and commemoration

As well as the annual summer and Christmas book lists, a number of bespoke catalogues were produced during the year. To celebrate the 2017 Year of Legends the *Chwedlau/Myths and Legends* catalogue was produced, showcasing a wealth of material from the Mabinogion and Owain Glyndŵr to the stories of T. Llew Jones and Roald Dahl. In the words of Cerys Matthews in the introduction: 'This great selection of books is a mix of modern and traditional stories, from the funny to the wonderfully weird – there's something here for everyone.'

To mark the centenary of the death of the poet Hedd Wyn, we published the bilingual catalogue *Hedd Wyn a'r Rhyfel Byd Cyntaf/Hedd Wyn and WWI*. As well as highlighting several recent books inspired by the tragic story of the Black Chair, it brings together a range of publications, fact and fiction, in both languages which relate to the Great War. As Ifor ap Glyn, the National Poet of Wales, remarks in his foreword: 'Welsh history can no longer be thought of as something that only operates on this side of Offa's Dyke ... Make sure you get your copies of the books advertised here – after all, being able to study these events from a Welsh perspective is essential.'

Also, in conjunction with Waterstones, we created a catalogue advertising titles across the spectrum of Welsh- and English-language publications for adults and children, as well as bilingual titles. The titles and catalogue were available in all branches of Waterstones in Wales.



Dosbarthu

Distribution

ELENI, cofnodwyd cynnydd bychan o £11,839 mewn gwerthiant drwy'r Ganolfan Ddosbarthu, sy'n cynrychioli 0.45% o drosiant o dros £2,613,611. Mae hwn yn ganlyniad boddhaol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Unwaith eto eleni, mae'n galonogol fod y ganran o gyfrifon gorddyledus y Ganolfan Ddosbarthu wedi ei chadw dan reolaeth, gyda'r ganran o ddyledwyr nad oeddynt wedi cadw at eu telerau wedi'i chyfyngu i 0.97% o'r targed o 2%, o'i chymharu ag 1.06% y llynedd ac 1.2% y flwyddyn cynt. Mae hyn yn gryn gamp, o ystyried y cyfnod anodd sy'n wynebu llyfrwerthwyr ar hyn o bryd.

Yn ystod 2016/17, gwelwyd nifer o newidiadau cyffrous i isadeiledd a dulliau rhedeg y Ganolfan Ddosbarthu. Gyda chostau'r Ganolfan yn cynyddu bob blwyddyn, mae angen inni reoli a dadansoddi ein costau rhedeg yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn fe adnabuwyd sawl prosiect a fyddai'n ein galluogi i leihau costau rhedeg y Ganolfan.

Ymgynghorwyd â sawl cwmni er mwyn trafod ein hanghenion o ran dosbarthu parseli. Wedi ystyried sawl system a chwmni gwahanol, penderfynwyd y byddem yn aros gyda chwmni Yodel am y deuddeg mis nesaf, a llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 12% ym mhrys anfon bocsaidd o lyfrau. Gall hyn olygu arbediad o ryw £7,000 eleni.

Gyda chostau deunyddiau pacio yn cynyddu'n sylweddol, roedd angen inni edrych am ddull rhatach o bacio bocsys yn ogystal, a hynny, wrth gwrs, heb effeithio ar y safon. Ar ôl profi sawl dull a sawl deunydd gwahanol, penderfynwyd yn y diwedd ddefnyddio peiriant aer, sef peiriant sydd yn chwythu aer i mewn i rolyn plastig i greu bagiau aer pwrpasol. Unwaith eto, llwyddwyd i sicrhau arbedion sylweddol, drwy ddefnyddio 50% yn llai o ddeunydd pacio mewn blwyddyn. Gan fod y Ganolfan yn arfer defnyddio gwerth £15,000 o *bubble wrap* bob blwyddyn, mae'r manteision ariannol yn amlwg.

Y prosiect mwyaf dros y chwe mis diwethaf, fodd bynnag, oedd mynd i'r afael â diffyg gofod yn y Ganolfan Ddosbarthu. Roedd hyn wedi peri tipyn o bryder i bawb ers rhai blynyddoedd ac roedd yn

A SMALL increase of £11,839 in sales through the Distribution Centre was recorded this year, representing 0.45% of a turnover of over £2,613,611. This is a satisfactory result in the present economic climate. Again this year it is heartening that the percentage of overdue accounts at the Distribution Centre was kept in check, with the percentage of debtors who failed to adhere to their terms being restricted to 0.97% of the 2% target, compared with 1.06% last year and 1.2% the previous year. This is quite a feat, considering the difficult period currently facing booksellers.

In 2016/17, several exciting changes were made to the infrastructure of the Distribution Centre and the way in which it is run. With the Centre's costs increasing year upon year, we must constantly strive to manage and analyse our running costs. During the year we identified several projects that would enable us to reduce the running costs of the Centre.

We consulted several companies to discuss our needs regarding distributing parcels. After giving consideration to various systems and companies, we decided to remain with Yodel for the next twelve months, and succeeded in agreeing a reduction of 12% in the price of sending a box of books. This could lead to a saving of some £7,000 this year.

With packaging costs rising substantially, we also needed to look for a cheaper way to pack the boxes without, of course, lowering the standard. Having tested several different methods and materials, it was eventually decided to use an air machine that blows air into a roll of plastic to create bespoke air bags. Once again, substantial savings were made, by using 50% less packaging material in a year. As the Centre used to spend £15,000 annually on bubble wrap, the financial advantages are evident.

The biggest project undertaken over the past six months, however, was tackling the lack of space in the Distribution Centre. This had been a bone of contention for several years; it was affecting publishers and bookshops, and placing additional pressure on the Centre's staff. In 2014 we had 657,019 books in the



Mae'r Ganolfan Ddosbarthu yn dal dros hanner miliwn o lyfrau
The Distribution Centre stocks over half a million books at any one time

effeithio ar y cyhoeddwyd a'r siopau, heb sôn am y pwysau ychwanegol yr oedd yn ei osod ar staff y Ganolfan. Yn 2014 roedd 657,019 o lyfrau yn y Ganolfan. Roedd hi'n amlwg fod yna ormod o lyfrau gennym mewn stoc – cymysgedd o stoc a oedd yn araf i werthu a llyfrau nad oeddynt yn gwerthu o gwbl. Ar ôl cryn dipyn o ddadansoddi, ceisio canfod pa deitlau oedd ddim yn gwerthu a thrafod y cyfan gyda'r cyhoeddwyd a'r hunangyhoeddwyd ac yn y blaen, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol. Ffigwr stoc diwedd Mai eleni oedd 514,680, sy'n golygu bod bron i hanner can mil yn llai o lyfrau yn cael eu cadw yn y Ganolfan bellach.

Ond hyd yn oed wedyn, doedd warws y Ganolfan ddim yn ddigon mawr i ymdopi â nifer y llyfrau newydd a'r holl stoc sydd angen ei storio, heb ddibynnu hefyd ar yr uned storio drws nesaf y buom yn ei rhentu ers 2008. Gan nad oedd gennym ddigon o le, nac arian chwaith, i'n galluogi i adeiladu estyniad i'r adeilad, yr opsiwn synhwyrol oedd ystyried y posibilrwydd o lenwi'r lle gwag oedd gennym eisoes, a hynny drwy adeiladu estyniad i lawr *mezzanine* y warws. Felly, dechreuwyd y broses o gynllunio a phrisio'r gwaith adeiladu, ac eto eleni, fel gyda'r gwaith a wnaed ar do'r Ganolfan y llynedd, roedd yna dipyn o ddathlu pan ddaeth y newyddion fod yna arian wedi ei glustnodi

Centre. It was obvious that there were too many books in stock – a combination of slow-selling titles and some that were not selling at all. After careful analysis, trying to pinpoint which titles were not selling, and discussing the matter with publishers, self-publishers and so on, the situation is now greatly improved. The total number of items in stock at the end of May this year was 514,680, which means that almost fifty thousand fewer books are currently stored in the Centre.

But even then, the Centre's warehouse was not big enough to cope with the flow of new books and all the stock that has to be stored, without relying also on the storage unit next door that we had been renting since 2008. As we were lacking the space, and funding, to enable us to build an extension to the building, the sensible option was to consider the possibility of filling the space we already had available by adding an extension to the mezzanine floor of the warehouse. And so began the process of planning and costing the building work, and – as in the case of the work carried out last year on the Centre's roof – there was considerable jubilation when we received the news that the Welsh Government had earmarked funding to pay for the new floor.

There were two options for installing the additional

gan y Llywodraeth i dalu am y llawr newydd.

Roedd yna ddau opsiwn ar gyfer gosod y llawr ychwanegol. Yn gyntaf, ei osod dros bedwar penwythnos er mwyn cadw'r Ganolfan ar agor, ond byddai rhwystr bob dydd Gwener a phob dydd Llun am y cyfnod hwnnw oherwydd gofynion y gwaith. Yn ail, gellid cau'r warws, a'r warws yn unig, ar ddydd Gwener a dydd Llun er mwyn cael pedwar diwrnod o'r bron i osod y llawr ac ad-drefnu, fel y gallem ailagor yn syth ac ailddechrau casglu archebion ar y bore Mawrth. Penderfynwyd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, y prif siopau llyfrau a'r cyhoeddwyd, mai'r ail opsiwn fyddai orau, a chlustnodwyd penwythnos yng nghanol Ebrill ar gyfer y gwaith.

Fel mae'r lluniau yn ei ddangos, tasg arbenigol iawn oedd symud 70 o ddarnau dur, rhai ohonynt yn enfawr, i mewn i'r Ganolfan, rhwng y silffoedd, a'u gosod yn eu lle. Unwaith i'r adeiladwyr gael y darn cyntaf yn lefel ac yn syth, fu'r llawr ddim yn hir cyn mynd i fyny. Bu'n rhaid symud ychydig o stoc ond, yn ffodus, ni wnaed difrod i'r un llyfr yn ystod y gwaith. Mae'r llawr newydd, sy'n 140 o fetrau sgwâr, yn dal dros ugain paled o lyfrau eisoes.

floor. The first was to work over four weekends in order to keep the Centre open, but this would have caused obstacles every Friday and Monday over that period due to the demands of the work. The second option was to close the warehouse, and the warehouse only, on a Friday and a Monday in order to have four full days to install the floor and reorganise the space; in this way, the warehouse could reopen immediately and staff could start collecting orders again on the Tuesday morning. It was decided – with the support of the Chief Executive, the main booksellers and the publishers – that the second option would be preferable, and a weekend in mid-April was earmarked to carry out the work.

As the photographs show, it was a delicate task for the specialists to move some 70 pieces of steel – many of them enormous – into the Centre, between the shelves, and to fit them into place. Once the builders had positioned the first piece – checking that it was level and perfectly straight – the work continued apace. Some stock had to be moved, but fortunately no books were damaged during the process. The new floor, which is 140 square metres in size, already holds over twenty pallets of books.



Adeiladu'r estyniad i'r mezzanine yn y Ganolfan Ddosbarthu
Building the extension to the mezzanine in the Distribution Centre

System argraffu newydd

Datblygiad arall a wnaed yn bosib gan arian a dderbyniwyd gan y Llywodraeth oedd uwchraddio technoleg argraffu'r Ganolfan Ddosbarthu. Bu disgwyl mawr am y 19eg o Fedi 2016, sef y diwrnod yr oedd ein system laser fodern yn mynd yn fyw. System argraffu Dot Matrix ugain mlwydd oed oedd yn arfer argraffu anfonebau, rhestrau pigo ac adroddiadau'r Ganolfan. Roedd wedi gwneud gwaith da dros y blynyddoedd, ond dros y cyfnod diweddar bu'n achosi mwy a mwy o broblemau i ni, o bapur yn mynd yn sownd yn y peiriant i anfonebau gwag. Hawdd dychmygu hefyd y pwysau ychwanegol y mae cyfnodau prysur fel y Nadolig yn ei roi ar system fel hon.

Felly, ar ôl chwe mis o gynllunio, profi ac addasu, roedd y system newydd yn barod. Mae'r arbedion o ran amser dynol yn amlwg, ond yr un mor bwysig yw'r arbedion ariannol a ddaw yn sgil y dechnoleg newydd. Er enghraifft, roedd bocs o bapur anfonebau Dot Matrix yn costio £49, ond £8 yw pris bocs cyfatebol o bapur laser – arbediad o ddwy fil o bunnau'r flwyddyn.



A new printing system

Another development made possible by Welsh Government funding was upgrading the printing technology at the Distribution Centre. We waited with bated breath for 19 September 2016, the day our modern laser system was to go live. A twenty-year-old Dot Matrix printing system had, until then, been printing all the Centre's invoices, picking lists and reports. Although it had served us well over the years, recently it had been causing more and more problems, from paper jams to blank invoices. One can well imagine too the additional pressure put on this system in busy periods such as the run-up to Christmas.

Therefore, after six months of planning, testing and making a few adaptations, the new system was ready to go. The savings in terms of man-hours are evident, but of equal importance are the financial savings that come in the wake of the new technology. For example, a box of Dot Matrix invoicing paper costs £49, but the price of a similar box of laser paper is £8 – an annual saving of two thousand pounds.





Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen Children's Books and Reading Promotion

MAE'R ADRAN Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen yn fwrlwm o weithgaredd drwy gydol y flwyddyn, a phob mis yn ei dro yn cynnig cyfleoedd newydd ac anturus i hyrwyddo darllen er pleser. Sut mae gwneud hyn? Wrth gydweithio gyda llu o bartneriaid sydd yn ystyried meithrin cariad at ddarllen yn flaenoriaeth ganddynt.

Darllen Dros Gymru a Bookslam Mae'r cystadlaethau darllen yn rhan bwysig o waith hyrwyddo darllen yr Adran, ac amcangyfrifir bod oddeutu tair mil o blant ledled Cymru yn cymryd rhan ynddynt yn flynyddol. Cynhaliwyd rowndiau cenedlaethol Cymraeg 2017 yn Aberystwyth ac enillwyd y prif wobrau eleni gan Ysgol Edern, Pwllheli ac Ysgol y Garnedd, Bangor. Ysgol Stebonheath, Llanelli a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth Saesneg a gynhaliwyd yn Aberhonddu. Bu Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, a'r awdures Eloise Williams yn cynnal sesiynau hwyliog ar gyfer y plant fel rhan o weithgareddau'r rowndiau terfynol.

Gwobrau Tir na n-Og Dyma'r prif wobrau ar gyfer llyfrau plant ac oedolion ifanc yng Nghymru, sy'n dathlu talentau awduron a darlunwyr a'u cyfrolau gwreiddiol. Cyflwynwyd gwobrau Cymraeg Tir na n-Og yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr. Luned Aaron a ddaeth i'r brig yn y categori cynradd am ei chyfrol *ABC Byd Natur* (Gwasg Carreg Gwalch), a Manon Steffan Ros a enillodd

THE CHILDREN'S Books and Reading Promotion Department is a veritable hive of activity throughout the year, with every month in turn offering new and exciting opportunities to promote reading for pleasure. How is this achieved? The answer lies in co-operating with a host of partners for whom nurturing a love of reading is a priority.

Bookslam and Darllen Dros Gymru The reading competitions are an important part of the work of the Department in promoting reading, and it is estimated that about three thousand children from all over Wales take part in them every year. The national rounds of the 2017 Welsh-language competition were held in Aberystwyth, and the main awards were won by Ysgol Edern, Pwllheli and Ysgol y Garnedd, Bangor. Stebonheath Primary School, Llanelli, were the winners of the English-language competition held at Brecon. Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru (Children's Poet Laureate), and the author Eloise Williams held lively sessions for the children as part of the activities arranged during the final rounds.

The Tir na n-Og Awards These are the main awards presented for children's and young adults' books in Wales; they celebrate the talents of authors and designers and their original works. The Tir na n-Og Welsh-language awards were presented at the Urdd National Eisteddfod held at Bridgend. Luned Aaron was the winner in the primary schools



Giancarlo Gemin, enillydd categori Saesneg Gwobrau Tir na n-Og 2017, gyda disgyblion o Ysgol John Bright, Llandudno
Giancarlo Gemin, winner of the English-language category of the Tir na n-Og Awards 2017, with pupils from Ysgol John Bright, Llandudno

y wobwr uwchradd gyda'i nofel *Pluen* (Y Lolfa). Enillydd y wobwr Saesneg oedd Giancarlo Gemin am ei nofel *Sweet Pizza* (Nosy Crow), a chyflwynwyd y wobwr iddo yn ystod cynhadledd CILIP Cymru yn Llandudno. Cynhyrchwyd taflenni Adnabod Awdur i hyrwyddo'r awduron, a thrwy bartneriaeth gyda chwmni teledu Tinopolis cynhyrchwyd ffilmiau byr o'r awduron buddugol yn ogystal â'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer i'w cynnwys ar sianel YouTube Gwales. Darlledwyd y cyfan ar y rhaglen *Heno* yn ystod yr wythnos yn arwain at yr Eisteddfod, a chafodd ffilmiau'r awduron buddugol eu dangos yn ystod y seremonïau gwobrwyo.

Gwasanaeth i ysgolion Bu'r tîm o dri swyddog profiadol yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd, cylchoedd meithrin, llyfrgelloedd a chynadleddau i arddangos deunyddiau a chynghori athrawon ac eraill. Er gwaetha'r hinsawdd economaidd anodd a chyfnod hir o salwch i un aelod o'r staff, llwyddodd y tîm i sicrhau gwerthiant o £380,000 ar sail yr ymweliadau hyn. Dosberthir pecynnau adnoddau ar ran y cyhoeddwyddwyd y flwyddyn, yn ogystal â'r catalog o'r holl deitlau Cymraeg i blant a gyhoeddwyd yng Nghymru yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf ar ffurf CD-ROM. Ceir fersiwn i'r we o'r *Catalog Llyfrau Plant* y gellir ei lawrlwytho o wefan Gwales.

category for her book *ABC Byd Natur* (Carreg Gwalch), and Manon Steffan Ros won the secondary school category with her novel *Pluen* (Y Lolfa). The winner in the English-language category was Giancarlo Gemin for his novel *Sweet Pizza* (Nosy Crow), and he was presented with the award during the CILIP Cymru Wales conference held in Llandudno. Meet the Author leaflets were produced to promote the authors and, in partnership with television company Tinopolis, short films were produced of the winning authors, together with those who were shortlisted, to be shown on the Gwales YouTube channel. They were all broadcast on the television programme *Heno* during the week leading up to the Eisteddfod, and the films of the winning authors were shown during the presentation ceremonies.

Service to schools The team of three experienced officers made regular visits to primary and secondary schools, nursery groups, libraries and conferences to display resources and advise teachers and others. Despite the challenging economic climate, and a long period of illness for one member of staff, the team sold books to the value of £380,000 on the basis of these visits. Resource packs prepared on behalf of the publishers are distributed twice annually, together with a catalogue in the form of a CD-ROM of all the Welsh-language titles for children published in Wales over the past eight years. An on-line version of *Catalog Llyfrau Plant* is also available to download from the Gwales website.

Bardd Plant Cymru Bu cyfnod Anni Llŷn fel Bardd Plant Cymru yn antur o fwrwm a phrysurdeb, ac roedd ei brwdfrydedd yn amlwg trwy gydol ei dwy flynedd yn y swydd. Cynhaliodd weithdai hwyliog mewn 83 o ysgolion a 10 castell, a chydweithiodd ag 20 o bartneriaid allanol mewn gweithdai a gweithgareddau amrywiol gan ddiddanu, ysbrydoli ac ymgysylltu â thros 6,000 o blant. Cyhoeddwyd yn Eisteddfod yr Urdd mai Casia Wiliam fydd y Bardd Plant ar gyfer 2017–19. Mae Bardd Plant Cymru yn gynllun ar y cyd rhwng Llenyddiaeth Cymru, S4C, Llywodraeth Cymru, yr Urdd a Chyngor Llyfrau Cymru.

@LlyfrDaFabBooks Prif amcan cynlluniau @LlyfrDaFabBooks yw hyrwyddo a chodi proffil llyfrau i blant a'r ardegau, a thrwy hynny hybu gwerthiant. Cynhaliwyd nifer o deithiau awdur eleni ac ymwelodd enillwyr Gwobrau Tir na n-Og 2016, sef Llŷr Titus, Siân Lewis a Griff Rowland, ag ysgolion ledled Cymru. Ymwelwyd â 19 o ysgolion a chafodd dros 1,000 o blant elwa ar y profiad. Gwahoddwyd llyfrwerthwr lleol i bob digwyddiad gan gryfhau'r bartneriaeth rhwng y siop a'r ysgol. Sefydlwyd cyfrifon Facebook a Twitter @LlyfrDaFabBooks yn 2015 er mwyn tynnu sylw at lyfrau a gweithgareddau yn ymwneud â llyfrau plant yng Nghymru. Mae'r cyfrifon yn mynd o nerth i nerth, gyda 1,259 o ddilynwyr Facebook a 401 yn ein dilyn ar Twitter.

Diwrnod y Llyfr Cafwyd sawl uchafbwynt i'r gweithgareddau eleni, gyda'r Sioe Lyfrau Fwyaf yn ymweld â Chanolfan Gelfyddydau Memo yn y Barri, lle daeth oddeutu 700 o blant ynghyd i glywed nifer o awduron yn cynnal bore o gyflwyniadau bywiog. Traddodwyd y ddarlith flynyddol yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd, a chafwyd noson ddifyr yng nghwmni Peter Florence, Cyfarwyddwr Gŵyl y Gelli, a Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Sialens Ddarllen yr Haf Trefnir y Sialens gan y Reading Agency, ac mae'r Cyngor Llyfrau yn cydlynw'r gwaith yng Nghymru gan gynnig cymorth i greu'r deunyddiau'n ddwyieithog. Darllen Mawr Direidus (Big Friendly Read) oedd y thema ar gyfer haf 2016, a bu 39,222 o blant yn cymryd rhan mewn llyfrgelloedd ar draws Cymru; roedd 44% o'r rhain yn fechgyn. Llwyddodd 22,953 o blant i gwblhau'r Sialens drwy ddarllen chwe llyfr yr un.

Children's Poet Laureate Anni Llŷn's tenure as Bardd Plant Cymru was a flurry of adventure and activity, and her enthusiasm was evident throughout her two years in the post. She held lively workshops in 83 schools and 10 castles, and worked with 20 external partners in various workshops and events, entertaining, inspiring and engaging with over 6,000 children. It was announced at the Urdd Eisteddfod that Casia Wiliam will be Bardd Plant Cymru for the period 2017–19. The scheme is co-ordinated jointly by Literature Wales, S4C, the Welsh Government, the Urdd and the Welsh Books Council.

@LlyfrDaFabBooks The main aim of the @LlyfrDaFabBooks schemes is to promote and raise the profile of books for children and young adults, by encouraging sales. Several author tours were arranged this year, and the winners of the 2016 Tir na n-Og Awards – Llŷr Titus, Siân Lewis and Griff Rowland – visited 19 schools throughout Wales, with over 1,000 children benefiting from the experience. Local booksellers were invited to every event, thus strengthening the partnership between the shop and the school. Facebook and Twitter @LlyfrDaFabBooks accounts were set up in 2015 in order to draw attention to books and book-related activities in Wales. These accounts are going from strength to strength, with 1,259 Facebook followers and 401 following us on Twitter.

World Book Day There were many highlights amongst this year's activities, with the Biggest Book Show on Earth visiting the Memo Arts Centre at Barry, where some 700 children flocked to listen to several authors taking part in a morning of lively presentations. The annual World Book Day lecture was delivered at the Pierhead building, Cardiff Bay, and an enjoyable evening was spent in the company of Peter Florence, Director of the Hay Festival, and Kirsty Williams, Cabinet Secretary for Education.

The Summer Reading Challenge The Challenge is arranged by The Reading Agency, with the Books Council co-ordinating the work in Wales and supporting the creation of bilingual materials. Big Friendly Read (Darllen Mawr Direidus) was the theme for summer 2016, with 39,222 children taking part in libraries throughout Wales; 44% of the participants were boys. A total of 22,953 children succeeded in completing the Challenge by reading six books each.



Helgard Krause yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a thri o awduron y gyfres Stori Sydyn/Quick Reads
Helgard Krause accompanied by the Cabinet Secretary for Education, Kirsty Williams, and three of the authors of the Quick Reads/Stori Sydyn series

Stori Sydyn/Quick Reads Mae llyfrau'r gyfres Stori Sydyn/Quick Reads yn fyr a bachog ac wedi eu hysgrifennu ar gyfer pobl sy'n dymuno gwella eu sgiliau a'u hyder wrth ddarllen. Cyhoeddwyd pedair cyfrol yn 2017, dwy yn Gymraeg a dwy yn Saesneg, a chynhaliwyd lansiad llwyddiannus yn y Senedd yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams. Y teitlau a gyhoeddwyd eleni oedd *Rhwng y Pyst* gan Owain Fôn Williams a Lynn Davies, *Y Stelciwr* gan Manon Steffan Ros, *Stargazers* gan Phil Carradice, a *Gun Shy* gan Angie McDonnell ac Alison Stokes.

Quick Reads/Stori Sydyn The books in the Quick Reads/Stori Sydyn series are short and punchy, and written for those who wish to improve their skills and confidence around reading. Four books were published in 2017, two in English and two in Welsh, and a successful launch was held at the Senedd in the company of Kirsty Williams, Cabinet Secretary for Education. The titles published this year were *Stargazers* by Phil Carradice, *Gun Shy* by Angie McDonnell and Alison Stokes, *Rhwng y Pyst* by Owain Fôn Williams and Lynn Davies, and *Y Stelciwr* by Manon Steffan Ros.

Chwedlau ar y Cledrau

Fel rhan o ymgyrch @LlyfrDaFabBooks trefnwyd taith awdur wahanol iawn ym mis Ebrill, lle cafodd y disgyblion gyfle i gwrdd â'r awdur ar daith drên rhwng Cyffordd Dyfi a Phwllheli. A 2017 wedi ei chlustnodi'n Flwyddyn y Chwedlau gan Lywodraeth Cymru, yr awdur fu'n eu diddanu oedd Meinir Wyn Edwards, awdur y gyfrol *Deg Chwedl o Gymru* a gafodd ei chynnwys ar restr fer Gwobrau Tir na n-Og eleni. Y disgyblion ffodus oedd plant adrannau iau Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth ac Ysgol Tan y Castell, Harlech.

Bu Meinir yn cynnal gweithdai arbennig ar y cledrau, a chafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am ein treftadaeth lenyddol a diwylliannol mewn ffordd ddifyr a hwyliog wrth iddynt brofi chwedlau sy'n perthyn i'w hardaloedd eu hunain. Dros ddau ddiwrnod bu'r teithiau'n ymweld â MOMA, sef yr amgueddfa celfyddyd fodern ym Machynlleth, a chastell Harlech, lle gwahoddwyd llyfrwerthwyr lleol i gynnal siop dros dro er mwyn i'r plant brynu cyfrolau gan yr awdur.

Yn sgil y cynllun peilot hwn, a drefnwyd ar y cyd gyda Threnau Arriva Cymru a'u Swyddog Cyswllt Ysgolion, Phil Caldwell, daeth cais gan Bartneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy i gydlynu taith drên arall. Dyma gychwyn felly ar Chwedlau ar y Cledrau 2 lle bu disgyblion ardal Llanrwst, Betws-y-coed, Penmachno a Blaenau Ffestiniog yn ymweld â llyfrgell Llandudno yng nghwmni Myrddin ap Dafydd.

Tales on the Rails

As part of the @LlyfrDaFabBooks campaign we arranged a very different author tour in April, with pupils having an opportunity to meet the author on a train journey between Dyfi Junction and Pwllheli. With 2017 being earmarked the Year of Legends by the Welsh Government, the author entertaining the children was Meinir Wyn Edwards, author of the book *Deg Chwedl o Gymru* which was shortlisted for this year's Tir na n-Og Award. The lucky children were pupils in the junior departments of Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth and Ysgol Tan y Castell, Harlech.

Meinir held special workshops on the rails, and the pupils had an opportunity to learn about their literary and cultural heritage in an interesting and entertaining way as they listened to legends connected with their local areas. Over two days the tours visited MOMA, the museum of modern art at Machynlleth, and Harlech castle, where local booksellers were invited to set up a pop-up shop to enable children to buy some of the author's books.

